# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2018/19



## Cyflwyniad – Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau

Mae’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cyflawni amrywiaeth eang o waith sy’n cyfrannu at fywiogrwydd yr ardal leol o reoli cadwraeth a mynediad ar gyfer y cyhoedd i gefnogi’r economi leol a chymeradwyo datblygiadau tai fforddiadwy.

Mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi cytuno i weithio i fformat cyffredin o ran ein Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau blynyddol i fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Y ddogfen hon yw ein Cynllun Gwella Blynyddol Rhan 1 ac mae'n nodi ein Hamcanion Llesiant a’r rhaglen waith sy’n gwbl gyson â’r amcanion hynny ar gyfer 2018/19. Hefyd mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddorion o ddatblygu yn gynaliadwy, ac rydym wedi amlygu’r modd y caiff yr egwyddorion hynny eu hymgorffori yn y gwaith a gyflawnir i wireddu ein hamcanion.

Bob blwyddyn mae'r Awdurdod yn dechrau ar y gwaith o gynllunio ymlaen ac ar y gwaith o baratoi cyllideb yn ystod mis Hydref er mwyn cymeradwyo cyllideb gytbwys erbyn Chwefror y 15fed. Mae’r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn wynebu galw cynyddol, a’r galwadau hynny weithiau yn gwrthdaro, i gyflawni materion cadwraeth, mynediad i'r cyhoedd, cyflogaeth leol a thai fforddiadwy, ar adeg pan fo adnoddau'n cael eu cyfyngu. Wrth baratoi'r cynllun hwn, rydym wedi adolygu’r camau a gymerwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol a hefyd wedi ystyried unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu yn y gymdeithas yn gyffredinol ac mewn cyllid a allai effeithio ar ein gwaith.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir | 3 |
| Datganiad ac Amcanion Llesiant APCAP | 6 |
| Cyllid | 8 |
| Amcan Llesiant 1: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden | 10 |
| Amcan Llesiant 2: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol. | 17 |
| Amcan Llesiant 3: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o’r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo’u hamgylchiadau | 21 |
| Amcan Llesiant 4: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi’i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC | 26 |
| Amcan Llesiant 5: Annog cymunedau i ymgysylltu’n fwy â’r Parc Cenedlaethol | 30 |
| Amcan Llesiant 6: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal. | 34 |
| Amcan Llesiant 7: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang | 39 |
| Llywodraethu Effeithiol a Chynaliadwyedd Ariannol | 44 |
| Atodiad: Amcangyfrif Drafft Cryno – Gwariant Gros ar y Nodau Llesiant | 49 |

## Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei ddynodi ym 1952 dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Mae’r Parc Cenedlaethol yn gorchuddio ardal ag arwynebedd o 612km2, gydag oddeutu 23,000 o bobl yn byw mewn rhyw 50 ardal cyngor cymuned. Mae’r rhan fwyaf o’r Parc Cenedlaethol mewn perchnogaeth breifat gyda’r Awdurdod yn berchen ar 1% yn unig.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei greu fel awdurdod lleol dibenion arbennig annibynnol dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf). Mae’r Awdurdod yn cynnwys 18 o Aelodau, 12 ohonynt wedi’u henwebu gan Gyngor Sir Penfro a chwe wedi’u penodi gan Lywodraeth Cymru.



## Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi mai Dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw

- **Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc**
- **Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.**

Hefyd mae'r Ddeddf yn datgan bod gan yr Awdurdod ddyletswydd wrth arddel y dibenion uchod, i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol.

Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gynllun o bwys cenedlaethol. Felly mae amcanion a pholisïau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn arwain at bolisïau rhanbarthol a lleol a gyflwynir yn y Parciau Cenedlaethol. Mae'r Canllawiau yn ychwanegu: "Yn wir, dylid amlygu nodau dibenion y Parc Cenedlaethol yn y Cynlluniau eraill hyn, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol".[1]

Bob pum mlynedd, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n nodi sut y dymunai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, nid yn unig gan yr Awdurdod ei hun, ond gan yr asiantaethau a sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc.

Dylai'r Cynllun Rheoli roi llinell glir i bobl rhwng dibenion a pholisïau rheoli y Parc Cenedlaethol. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gyhoeddi Cynllun Rheoli (A66 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995). Ni all yr APC gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol ar ei ben ei hun, ac mae gan sefydliadau eraill ddyletswydd gyfreithiol i roi sylw i'r dibenion yn eu gweithrediadau eu hunain (A62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995). Mae egwyddor Sandford hefyd yn berthnasol i'r sefydliadau hyn.

Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ac mae'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol.

## Polisïau Strategol Ychwanegol a'r Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae dogfennau allweddol megis yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, ac Asesiad Llesiant Sir Benfro yn rhoi sylfaen i ni o dystiolaeth a chyfeiriad polisi i lywio gwaith yr Awdurdod dros gyfnod y cynllun hwn a chyfrannu at ddatblygu dulliau wedi'u teilwra'n lleol i wella cydnerthedd y Parc Cenedlaethol. Hefyd bydd y Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro a'r Datganiadau Ardal yn y dyfodol yn dylanwadu ar waith yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn cyfrannu at nodau ehangach Llywodraeth Cymru fel yr amlinellwyd yn y Rhaglen Lywodraethu "Symud Cymru Ymlaen" a 'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol". Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn bodloni'r dyheadau am well gwasanaethau cyhoeddus a nodir mewn polisïau a deddfwriaeth, gan gynnwys:

---

[1] Canllawiau Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol, 2007, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, Paragraff 4.45, Tudalen 26

- Y Mesur Llywodraeth Leol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan gynnwys ystyried y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau o dan y Ddeddf.
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae gwaith yr Awdurdod hefyd yn cyfrannu at ac yn cyd-fynd â’r blaenoriaethau o fewn meysydd eraill o bolisïau gan gynnwys datblygiadau polisi mewn iechyd o ran modelau rhagnodi cymdeithasol, Llywodraeth Cymru 2017 "Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer diwylliant yng Nghymru," "Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017- 21" a phasio’r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) .

## Nodau Llesiant ar gyfer Cymru

Mae'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau hwn wedi'i strwythuro i ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a bod ein hamcanion yn ystyried y nodau llesiant canlynol o dan y Ddeddf:

| **Nod** | **Disgrifiad o’r nod** |
|---|---|
| Cymru lewyrchus. | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| Cymru gydnerth | Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| Cymru sy’n fwy cyfartal | Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| . Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu | Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

## Datganiad ac Amcanion Llesiant APCAP

Mae Asesiad Llesiant Sir Benfro wedi'i gyhoeddi, a disgwylir y bydd Cynllun Llesiant Sir Benfro wedi'i gwblhau erbyn mis Mai 2018. Rydym wedi adolygu ein gweithgareddau o dan ein hamcanion i gyd-fynd â'r cynigion yn y cynllun drafft. Mae gan yr Awdurdod saith o Amcanion Llesiant sy'n cyfrannu at y Nodau Llesiant a hefyd sy'n ffurfio ein hamcanion gwella am y flwyddyn nesaf o dan y Mesur Llywodraeth Leol.

| Amcanion Llesiant APCAP | Sut yr ydym yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru |
|---|---|
| 1. Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden. | Mae hyn yn cyfrannu at 'Cymru Lewyrchus' a 'Cymru Gydnerth' trwy roi anogaeth i ddatblygu busnesau newydd a phresennol a chynyddu nifer y swyddi gan beidio â chefnogi defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol. Dylai cynnal a hyrwyddo asedau twristiaeth yn y Parc, gan gynnwys llwybr yr arfordir, hybu 'Cymru Mwy Cyfartal' a 'Cymru Iachach'. |
| 2. Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol | Mae ymagweddau sy'n seiliedig ar natur a pholisïau cynllunio hyrwyddir gan yr Awdurdod yn gymorth i sicrhau ecosystemau iach yn y Parc sy'n cyfrannu at 'Gymru Gydnerth'. Mae'r Awdurdod yn hyrwyddo ymagwedd sy'n seiliedig ar le ynghyd â gweithio gyda thirfeddianwyr a chymunedau ar warchod y Parc a gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd, mae hyn yn cefnogi 'Cymru o Gymunedau Cydlynus'. |
| 3. Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau | Mae gweithgarwch yn yr awyr agored, megis cerdded, yn gallu gwella'r teimlad o lesiant, lleihau straen a gall fod yn ysbrydoledig. Trwy hybu defnydd mwy rheolaidd o'r awyr agored, annog gwirfoddolwyr a dileu rhwystrau i fynediad mae'r amcan hwn yn cyfrannu at greu 'Cymru iachach', 'Cymru sy'n fwy cyfartal a 'Cymru o gymunedau cydlynus. |
| 4. Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC | Bydd yr Awdurdod yn parhau i annog ystod fwy cynrychiadol o bobl i ymgysylltu a bod yn rhan o waith yr Awdurdod a'r Parc Cenedlaethol, gan gyfrannu at 'Gymru Mwy Cyfartal.' Bydd yn defnyddio'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol i sefydlu cydraddoldeb ac amrywiaeth yng ngwaith a diwylliant yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. |
| 5. Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol | Eisoes mae llawer o gymunedau, cymunedau buddiant megis tirfeddianwyr a grwpiau lleol, yn ymgysylltu â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cyfrannu at ei waith sy'n amrywio o ymateb i ymgynghoriad i brosiectau lleol ar wella'r amgylchedd. Drwy gymryd ymagwedd o gydgynhyrchu, ymwneud â chyfleoedd newydd megis cynllun adfer natur Sir Benfro a datblygu ein gwaith i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd sy'n gynrychiadol o'r gymdeithas, byddwn yn ychwanegu at 'Gymru o Gymunedau Cydlynus'. |
| 6. Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal. | Mae gan Sir Benfro ddiwylliant cyfoethog yn y celfyddydau, treftadaeth ac iaith y mae'r Awdurdod yn ei gefnogi. Caiff hyn ei gydnabod fel rhan o unigrywiaeth yr ardal gan gyfrannu at greu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r |

| | |
|---|---|
| | Gymraeg yn ffynnu’. |
| 7. Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. | Drwy leihau ein hôl troed carbon yn barhaus, hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau o fewn y Parc, cefnogi'r agenda twf gwyrdd drwy brosiectau SDF ac addysgu pobl am rinweddau arbennig y Parc, mae'r Awdurdod yn cyfrannu at 'Gymru Gyfrifol yn Fyd-eang' |

## Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yn ein Gwaith

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy. Dyma rai o'r ffyrdd y mae'r egwyddorion hyn yn cael eu cymhwyso yn y modd y mae'r Awdurdod yn Gweithio.

### Hirdymor

- Cynllun Rheoli Parc Cendlaethol
- Adolygu’r Cynllun Datblygu Lleol
- Ymagwedd sy’n seiliedig ar le at brosiectau
- Datganiad Ardal ac Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd

### Atal

- Cynnal Llwybr yr Arfordir
- Gwaith cadwraeth – Atebion sy’n seiliedig ar natur
- Gwneud y Fflyd yn fwy Gwyrdd
- Cyfleoedd cerdded â chymorth ac adnoddau iechyd

### Integreiddio

- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Cynllun Rheoli'r Blaendraeth
- Croeso Cymru - Blwyddyn y Môr
- Ymwneud â’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

### Cydweithio

- Gweithio gyda thirfeddianwyr ar gadwraeth a mynediad
- Hwyluso Rhwydwaith Gwasanaeth Iechyd Naturiol Gorllewin Cymru
- Ymagwedd ranbarthol at bwyntiau gwefru trydan
- Partneriaeth Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Oriel y Parc

### Cynnwys

- Gwirfoddoli a Gweithredu Cymdeithasol
- Digwyddiadau pop-yp ac ymgysylltu ar-lein
- Gwyddor dinasyddiaeth a chynnwys pobl wrth gofnodi newid yn y Parc
- Llysgenhadon Golwg ar y Parc (Parkwise) a Llwybrau

**Llywodraethu**

Bydd adroddiadau i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cynnwys adran ar y goblygiadau ar gyfer y 5 ffordd o weithio.


## Cyllid

Mae gwariant refeniw net yr Awdurdod ar gyfer 2018/19 yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru, drwy ddyrannu Grant y Parciau Cenedlaethol blynyddol a'r ardoll ar £3,743,000. Mae hyn yn ostyngiad o 5% ar 2017/18. Codir incwm a gynhyrchir yn lleol o rhyw £1,629,000 o ffioedd cynllunio, taliadau mynediad, gwerthu nwyddau, meysydd parcio ac ati. Mae dadansoddiad manylach o'r gyllideb yn cynnwys codau CIPFA ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn Atodiad A.


### Rhagolygon Cyllideb 2018/19

| Incwm | |
|---|---|
| | **£000's** |
| Grant Llywodraeth Cymru | 2807 |
| Ardoll awdurdod lleol | 936 |
| Incwm a gynhyrchir yn lleol | 1629 |
| Incwm a gynhyrchir yn lleol a Throsglwyddiad o Gronfeydd | 688 |
| **Cyfanswm** | 6060 |

| Gwariant | | |
|---|---|---|
| **Amcan Llesiant APCAP** | **Adnoddau (£000's)** | |
| Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden | 1190 | 20 |
| Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol | 1012 | 17 |
| Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau | 776 | 13 |
| Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC | 676 | 11 |
| Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol | 683 | 11 |
| Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal. | 1049 | 17 |
| Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. | 674 | 11 |
| **Cyfanswm** | **6060** | **100** |




Isod mae cymhariaeth o ddosbarthiad % 'ar draws y Nodau Llesiant ar gyfer 2016/17, 2017/18 a 2018/19.



**Amcan Llesiant 1: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.**

**Ble ydym ni**

- Mae Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod sy'n pennu polisïau cynllunio ar gyfer y Parc yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Y gobaith yw cyrraedd y cam adneuo erbyn mis Mawrth 2018 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru fis Rhagfyr 2018.

- Mae 7,300 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector twristiaeth yn Sir Benfro ac mae bron i 4,000,000 o bobl yn ymweld â Sir Benfro bob blwyddyn[2] sy'n hwb mawr i'r economi leol. Mae rhinweddau arbennig y Parc yn cynnig cyfleoedd gwych o ran hamdden, gan gynnwys awyr dywyll, tirweddau anhygoel, profiadau hanesyddol a diwylliannol a chyfleoedd cerdded. Mae cynnal yr asedau naturiol a diwylliannol hyn yn swyddogaeth allweddol yr Awdurdod. Yn 2016/17 roedd 85.81% o'r Hawliau Tramwy yn agored ac yn hygyrch ac yn bodloni'r safonau ansawdd.

**Datblygu Gardd Furiog Castell Caeriw**

**Mae Castell Caeriw wedi gweld twf sylweddol yn niferoedd yr ymwelwyr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, mae'r Awdurdod wedi cydnabod bod angen datblygu ymhellach yr hyn a gynigir i ymwelwyr ar y safle hwn, gan ystyried adborth yr ymwelwyr a'r cyfleoedd sydd ar gael i fanteisio i'r eithaf ar rinweddau arbennig y safle hwn. Yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Medi 2017 cafodd y gwaith o adeiladu caffi ar y safle ei gymeradwyo. Disgwylir i'r adeilad gael ei gwblhau erbyn mis Mai 2018. Hefyd cafodd y gwaith ar yr Ardd Furiog yng Nghaeriw ei gymeradwyo gan yr Awdurdod, a disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gyflawni yn ystod tymor yr hydref 2018. Roedd y cais am grant Croeso Cymru i ariannu'r prosiect Gardd Furiog yn llwyddiannus.**

- Bu'r Awdurdod yn treialu dull newydd o gyflwyno gwybodaeth ac ennyn diddordeb pobl yn ardal Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot yn ystod haf 2017. Roedd hyn yn dilyn y penderfyniad i gau Canolfan Wybodaeth Dinbych-y-pysgod ar ddiwedd 2016. Bu parcmon tymhorol yn rhoi gwybodaeth yn y fan a'r lle ac yn cyflwyno gweithgareddau mewn lleoliadau lle mae nifer uchel o ymwelwyr a lle gallai rhyngweithio ategu ac ychwanegu at brofiad yr ymwelydd. Bydd canfyddiadau'r cynllun peilot hwn yn dylanwadu ar ddulliau'r dyfodol o gyflwyno gwybodaeth ac ymgysylltu ag ymwelwyr yn ardaloedd de a gogledd y Parc.

- Mae'r Awdurdod wedi bod yn ymgysylltu â darparwyr twristiaeth o fewn y cymunedau i ddod yn llysgenhadon ar ran y Parc drwy ei sesiynau Golwg ar y Parc (Parkwise). Mae'r sesiynau hyn wedi'u cyflwyno i staff y Garreg Las yn ne'r sir, ac mae gwaith ar y gweill i weld sut ellir cyflwyno sesiynau tebyg i fusnesau twristaidd eraill ar draws y Parc. Mae hyn yn rhan o ddull newydd o hyrwyddo a darparu gwybodaeth am y Parc. Bydd

[2] BGC Dir Benfro, Asesiad Lles ar gyfer Sir Benfro, Ebrill 2017: https://www.sir-benfro.gov.uk/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus/asesiad-llesiant

datblygu gwefan newydd ac ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn chwarae rhan allweddol.

**Adborth gan randdeiliaid lleol a chyfranogwyr ar gynllun Parcmon Tymhorol Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot**

**“Roedd cael parcmon blaengar fel Owen yn yr ardal yn fodd i ni, fel asiantaeth gwyliau, gael gwell mewnwelediad i’r hyn y mae’r Parc yn ei wneud yn ein hardal leol. Roedd Owen yn bwydo gwybodaeth i ni yn wythnosol am yr hyn yr oedd yn ei wneud neu’n ei gynllunio, ac nid yn unig yr oedd mwy gyda ni i sôn amdano wrth ein cwsmeriaid, ond roedd yn rhoi mwy i ni rannu'n gymdeithasol, yn ddigidol ac yn dod â synnwyr o gymuned ac ymgysylltu â’r Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd.”**

**FBM Holidays**

**“Cawsom amser gwych yn dal crancod oddi ar harbwr Saundersfoot gyda'n merched (7 a 4 oed) i gyd yn gredyd i Owen Jenner am wneud hyn yn brofiad llawn gwybodaeth a phleserus i ni i gyd.”**

**Adolygiad Cyfranogwr ar Facebook**

- Mae strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, yn clustnodi sgiliau a chyflogadwyedd fel meysydd blaenoriaeth. Roedd llwyddiant y cynllun Sgiliau ar Waith wedi golygu bod yr Awdurdod yn ymestyn y cynllun i gynnig dwy swydd ychwanegol dan hyfforddiant yn 2017/18. Mae prosiect Llwybrau yr Awdurdod yn galluogi pobl i ddatblygu sgiliau newydd drwy ystod o gyfleoedd gwirfoddoli. Mae'r prosiect Pwyth mewn Pryd hefyd wedi bod yn gymorth i ddatblygu sgiliau contractwyr lleol drwy gyfleoedd hyfforddiant.

**Adborth gan fusnesau bach sydd wedi elwa o gymryd rhan yn y Prosiect Pwyth mewn Pryd**

**"Mae gweithio ar y prosiect Pwyth mewn Pryd wedi bod yn dra gwerthfawr. Rydw i wedi mwynhau mynd i'r afael ag ardal mor fawr o’r pla Jac y Neidiwr, ac mae mynd yn ôl i'r safleoedd hyn am eu hail neu drydydd toriad mor werth chweil a gweld canlyniadau mor drawiadol o leihad yn y pla. Mae gennyf berthynas waith ardderchog â’r tirfeddianwyr ac arweinydd y prosiect, Matt Tebbutt, ac mae'r prosiect wedi bod o gymorth i mi mewn sawl ffordd fel busnes bach, gan gynnwys ariannu cwrs ar blaladdwyr, fel y gallwn wedyn fynd ymlaen i drin unrhyw achos o glymog Siapan oedd wedi'i ganfod yn yr ardal glirio."**

**Contractwr fu’n gweithio ar y Prosiect Pwyth mewn Pryd**

| **Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 1** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig a darparu Gwasanaeth Cynllunio effeithiol sy'n cynnal economi gynaliadwy. | ✔ | ✔ | ✓ | ✓ | ✔ | ✓ | ✔ |
| Hyrwyddo rhinweddau arbennig y Parc fel cyrchfan i dwristiaid, gan weithio gyda phartneriaid i wella a chefnogi'r dwristiaeth leol a gynigir. | ✔ | ✔ | ✓ | ✓ | | ✔ | |
| Parhau i gynnal asedau twristiaeth a diwylliannol y Parc. Sicrhau lefel uchel barhaus o fodlonrwydd o ran profiad ymwelwyr â Llwybr Arfordir Sir Benfro. | ✔ | ✓ | ✔ | ✔ | ✓ | ✔ | ✔ |
| Hyrwyddo diogelwch ymwelwyr a hamdden cynaliadwy gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â chyrff hamdden a grwpiau defnyddwyr. | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✓ | ✔ |
| Cefnogi busnesau lleol a hybu datblygiad sgiliau | ✔ | ✓ | | ✓ | ✔ | ✓ | ✔ |

✔ mae hyn yn dynodi cyfraniad cryf at y nod llesiant hwn

✓ mae hyn yn dynodi cyfraniad anuniongyrchol neu gyfyngedig at y nod llesiant hwn

Gwneud y 5 Ffordd o weithio yn gymwys i'n gweithgareddau:

| | |
|---|---|
| **Hirdymor** | Datblygu Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig sy'n nodi polisïau cynllunio tymor hir yr Awdurdod. |
| **Atal** | Cynnal a diogelu llwybr yr arfordir, hawliau tramwy cyhoeddus ac asedau diwylliannol. Hyrwyddo hamdden cynaliadwy drwy Fforwm Arfordir Sir Benfro. |
| **Integreiddio** | Hyrwyddo a chymryd rhan ym Mlwyddyn y Môr Croeso Cymru drwy ein cyhoeddiadau a'n digwyddiadau. |
| **Cydweithio** | Gweithio gyda phartneriaid i weithredu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. |
| **Cynnwys** | Ymgysylltu â phobl i ddod yn Llysgenhadon dros y Parc drwy hyfforddiant Golwg ar y Parc (Parkwise). |

**Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol - Beth fydd yn ymddangos yn gamau ymlaen**

Bod datblygiadau yn parchu rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae ein gweithgareddau yn cefnogi economi carbon isel, yn gwarchod ac yn hyrwyddo awyr dywyll a'r amgylchedd hanesyddol, yn hyrwyddo hamdden cynaliadwy ac yn dathlu'r cysylltiadau diwylliannol rhwng pobl a thirweddau.

**Adnoddau a Ddyrannwyd i'r Amcan hwn (£000's): 1190**

## Amcan 1 Llewyrchus – Fframwaith Perfformiad

| Mesur | 2016/17 Cyfredol | 2017/18 Targed | 2018/19 Targed | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| Gwyriad o ran paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol o'r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd | Nid yw'n berthnasol | 0 | 0 | Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi'i fabwysiadu yn 2020. [CRPC: L3] [Dangosydd Llywodraeth Cymru] |
| % y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 80 (Gwyrdd) | 80 | 80 | Gwasanaeth cynllunio effeithlon ac effeithiol. [CRPC: L3] [Dangosyddion a Thargedau Llywodraeth Cymru] |
| Yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar bob cais cynllunio mewn diwrnodau | 61 (Gwyrdd) | <67 | <67 | |
| % y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn cyngor swyddogion (argymhelliad) | 9 (Coch) | <5 | <5 | |
| % yr apeliadau a wrthodwyd | 83 (Gwyrdd) | >66 | >66 | |
| Ceisiadau am gostau mewn apêl adran 78 a ganiatawyd yn ystod y cyfnod adrodd | 1 (Ambr) | 0 | 0 | |
| % y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd dan bwerau dirprwyedig | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| # ceisiadau cynllunio a gofrestrwyd | 576 | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Gwasanaeth cynllunio effeithlon ac effeithiol. [CRPC: L3] |
| % y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd | 89 (Ambr) | 90 | 90 | |
| # yr ymwelwyr i Gaeriw | 43033 (Gwyrdd) | Meincnodi yn erbyn 2016/17 | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae nifer cynyddol o bobl yn manteisio ar y cyfleoedd i ymwneud â'n lleoliadau hanesyddol a diwylliannol. [CRPC: B4, HE3, DE3, DE4] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr |
| # yr ymwelwyr i Gastell Henllys | 19250 (Ambr) | Meincnodi yn erbyn 2016/17 | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| # yr ymwelwyr i Oriel Y Parc | 141048 (Gwyrdd) | Meincnodi yn erbyn 2016/17 | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | agored] |
| # y dilynwyr ar y Cyfryngau Cymdeithasol | 29885 (Gwyrdd) | 26000 | 35000 | Lefelau cynyddol o ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol ar bynciau sy'n ymwneud â'r Parc Cenedlaethol a'i Rinweddau Arbennig. [CRPC: B4, DE1, DE2, DE3, DE4, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored ] |
| # Prif ddefnyddwyr y wefan (a ddiwygiwyd i gyd-fynd â Dadansoddeg Google) | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Mae rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael eu hyrwyddo. [CRPC: B4, DE4] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored ] |
| # Prif dudalennau'r wefan yr edrychwyd arnynt | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | |
| # yr ymholiadau ynghylch ffilmio | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | |
| # Sesiynau hyfforddiant Golwg ar y Parc (Parkwise) a gynhaliwyd | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | 10 | Mae darparwyr twristiaeth yn llysgenhadon ar ran y Parc sy'n hyrwyddo ei rinweddau arbennig i dwristiaid a'r cyhoedd. [CRPC: DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored / Gwneud pethau'n wahanol] |
| # Mynychwyr sesiynau hyfforddiant Golwg ar y Parc | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | 100 | |
| # Cyfranogwyr yn y digwyddiadau Awyr Dywyll a gynhaliwyd gan yr Awdurdod | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Rhoddir cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn digwyddiadau awyr dywyll yn y Parc ac mae nifer cynyddol o bobl yn manteisio ar y cyfleoedd hyn. [CRPC: L4] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored ] |
| # Croeso Cymru - cyfranogwyr digwyddiadau blwyddyn y môr | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 Blwyddyn Chwedlau Cymru | Mae nifer cynyddol o bobl yn manteisio ar gyfleoedd i ymwneud â rhinweddau arbennig y Parc. [CRPC: B4, DE1, DE3. DE4] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored ] |
| Llwybr Arfordir Sir Benfro - Sgôr Gyffredinol Trip Advisor 1-5 | Nid yw'n berthnasol | 5 | 5 | Parhad yn lefel uchel o foddhad ymwelwyr â Llwybr Arfordir Sir Benfro a hawliau tramwy mewndirol sy'n annog pobl i ail-ymweld. [CRPC: DE 1, DE2] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| % yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n agored ac yn hygyrch gan gyrraedd y safon ansawdd | 85.81 (Gwyrdd) | Meincnodi yn erbyn 2016/17 | 85% | |
| # pryderon ynglŷn â safonau hawliau tramwy cyhoeddus | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | |
| % o wariant yr Awdurdod a wariwyd | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn | Manteision i fusnesau lleol bod yr Awdurdod yn prynu'n lleol lle |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| yn lleol | | | 2017/18 | bo modd. [CRPC: DE5] |
| % yr anfonebau a dalwyd ar amser | 98.25 (Gwyrdd) | 97 | 97 | |
| # y stondinwyr sy'n cyfranogi mewn ffeiriau a digwyddiadau yn Oriel Y Parc, Caeriw a Chastell Henllys | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Busnesau lleol, artistiaid a chrefftwyr yn elwa o gynnal stondin mewn Canolfannau. [CRPC: DE5] |
| # yr Artistiaid a Gwneuthurwyr Crefftau a gefnogwyd trwy'r Canolfannau | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Artistiaid a chrefftwyr yn elwa o gyfleoedd i werthu eu gwaith drwy'r Canolfannau. [CRPC: B4, DE4] |

| Camau Gweithredu | Cerrig Milltir | Canlyniad |
|---|---|---|
| Gweithredu cyfleuster newydd o reoli dogfennau ar-lein | • System ar waith<br>• System yn fyw i'r cyhoedd (Mai 2019) | Gwasanaeth cynllunio effeithlon ac effeithiol a hygyrch sy'n helpu i hwyluso economi gynaliadwy. [CRPC: L3] [Dangosydd Llywodraeth Cymru] |
| Datblygiad Caffi a Gardd Furiog Castell Caeriw | • Cwblhau'r Caffi (Mai 2018)<br>• Gwaith wedi dechrau ar yr Ardd Furiog (Medi 2018)<br>• Gwaith wedi'i gwblhau ar yr Ardd Furiog (Rhagfyr 2018) | Cynnig mwy i ymwelwyr yng Nghaeriw, gan hyrwyddo cyfleoedd pellach i ennyn diddordeb pobl yn rhinweddau arbennig y Parc. [CRPC: L4, B4, HE3, HE6, DE3] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| Datblygu Gwefan Newydd | • Brîff wedi'i anfon allan i dendr<br>• Y gwaith wedi dechrau ar y wefan newydd<br>• Gwefan newydd wedi'i chwblhau | Gall pobl gael mynediad hawdd ar-lein, gan gynnwys gwybodaeth am y Parc a'i rinweddau arbennig, gwaith yr Awdurdod a'r modd y gallant gymryd rhan. [CRPC: DE1, DE2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| Gweithredu dulliau newydd o gyflwyno gwybodaeth ac ymgysylltu ag ymwelwyr yn ne a gogledd y parc. | • Recriwtio Parcmyn tymhorol<br>• Cyflawni gwasanaeth tymhorol<br>• Gweithgaredd ymgysylltu â darparwyr twristiaeth a busnesau drwy Golwg ar y Parc<br>• Adroddiad diwedd y tymor i'r Aelodau | Mae gwybodaeth ac ymgysylltu ag ymwelwyr yn cyrraedd poblogaeth ehangach drwy ymgysylltu pop-yp ar y stryd ac ar draethau'r Parc. [CRPC: L4, B4, HE3, DE1, DE2, DE4, DE5] [Cynllun Llesiant: Gwneud pethau'n wahanol] |
| Datblygu Cynllun Gwella Newydd ar Hawliau Tramwy | • Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi'i gymeradwyo<br>• Cynllun Mabwysiadu Llwybr wedi'i ddatblygu a chyllid wedi'i sicrhau ar gyfer y prosiect | Mynediad at gyfleoedd hamdden yn cael ei ddarparu mewn modd cynaliadwy. Mae gwirfoddolwyr yn cynorthwyo gwasanaeth wardeniaid y Parc Cenedlaethol i gynnal hawliau tramwy cyhoeddus. [CRPC: B4, DE1, DE2, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| Prosiect y Parc Digidol | • Cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer y Prosiect Parc Digidol<br>• Meddalwedd wedi'i brynu a'r seilwaith digidol yn ei le | Systemau 'cefn-swyddfa' yn fwy effeithlon sy'n arwain at well blaenoriaethu a gwell cyflwyno ar y llawr. [CRPC: L1, HE5, CC2, DE1, |

| | | |
|---|---|---|
| | • Hyfforddiant i'r staff | DE2] |
| Canllawiau Rheoli Digwyddiadau (Sir Benfro gyfan) | • Canllawiau drafft wedi'u cwblhau<br>• Canllawiau wedi'u cymeradwyo<br>• Rhaglen o hyrwyddo'r canllawiau | Mae grwpiau defnyddwyr hamdden yn ymgysylltu â'r Parc, ac mae mynediad i gyfleoedd hamdden yn cael ei ddarparu mewn modd cynaliadwy. [CRPC: B4, HE3, DE1, DE2, DE4, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored ] |
| Gweithredu Egwyddorion Diogelwch Ymwelwyr a'r camau gweithredu blaenoriaeth yn y Strategaeth Diogelwch Ymwelwyr | • Hyrwyddwr Diogelwch Ymwelwyr wedi'i benodi<br>• Adolygu'r Hyfforddiant<br>• Diweddaru'r Polisi<br>• Templed asesu risg wedi'i gwblhau<br>• Asesiad risg ar safleoedd CAT 1 wedi'i gwblhau | Gwell diogelwch ymwelwyr. [CRPC: DE1, DE2] |
| Cyflwyno cyfleoedd gwirfoddoli drwy'r prosiect Llwybrau sy'n datblygu sgiliau seiliedig ar waith a gyrfa | • Cyflawni Cynlluniau Dysgu Personol<br>• Cyflawni rhaglen o weithgareddau i wirfoddolwyr<br>• Datblygu'r Cynllun Hyfforddiant<br>• Cyflwyno hyfforddiant i gyfranogwyr | Cyflawni cyfleoedd i wirfoddoli drwy'r prosiect Llwybrau sy'n datblygu sgiliau seiliedig ar waith a gyrfa i gynorthwyo pobl ifanc ac eraill gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth. [CRPC: DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth] |
| Ymchwilio i gyfleoedd o ddatblygu dysgu seiliedig ar waith, prentisiaeth, cynlluniau hyfforddi, cyfleoedd secondio ar draws yr Awdurdod | • Adolygiad strategol gan y Tîm o Uwch Reolwyr ac Arweinyddiaeth o gyfleoedd ar draws yr Awdurdod | Mae dulliau strategol yn cael eu datblygu i gynorthwyo datblygu sgiliau a chyfleoedd yn yr Awdurdod, y Parc ac yn Sir Benfro. [CRPC: DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth] |

| **Ansoddol, Gwerthuso, Adroddiadau** | **Cyfleoedd Dysgu** |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Cynllunio ac Arolwg o Farn Cwsmeriaid | Clustnodi meysydd gwella ar gyfer y gwasanaeth cynllunio. Yn galluogi'r Awdurdod i feincnodi perfformiad yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio eraill. [CRPC: L3] |
| Astudiaethau Achos - Parcmyn yn gweithio gyda thirfeddianwyr a Grwpiau hamdden | Enghreifftiau o'r modd y gallwn ymgysylltu â defnyddwyr cyfleusterau hamdden a thirfeddianwyr i ddarparu cyfleoedd hamdden cynaliadwy. [CRPC: DE1, DE5] [Cynllun Llesiant:Dathlu'r awyr agored] |
| Astudiaethau Achos o ddifrod stormydd ac ailalinio Llwybr yr Arfordir | Enghreifftiau o effaith erydiad arfordirol ar gynnal llwybr yr arfordir a'n hymateb. [CRPC: DE1, DE5] [Cynllun Llesiant: Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd] |

## Amcan Llesiant 2: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.

**Ble ydym ni**

- Mewn ymateb i Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, roedd Llywodraeth Cymru wedi clustnodi'r blaenoriaethau cenedlaethol canlynol yn ei Bolisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol: Cyflawni atebion yn seiliedig ar natur, cynyddu ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd adnoddau a dulliau sy'n seiliedig ar le.

- Mae'r Awdurdod wedi parhau i hyrwyddo'r defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur sy'n cefnogi datblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn. Mae hyn yn cynnwys gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd, gweithio ar rywogaethau ymledol, cynllun gwarchod y parc gyda thirfeddianwyr, y defnydd a wneir o ddulliau pori, a gwaith Coed Gwarchodedig.

**Atebion yn Seiliedig ar Natur – yn Cael Effaith**

Gwarchod y Parc yw cynllun blaenllaw yr Awdurdod ar gyfer gweithio gyda'n cymuned o dirfeddianwyr yn y Parc Cenedlaethol.  Mae'r cynllun wedi bod yn arf pwerus wrth gyflwyno mesurau ymarferol o reoli tir ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau allweddol. Anaml y caiff mesurau rheoli a gynhelir drwy'r cynllun ar rostiroedd a glaswelltiroedd ar yr arfordir ac ar yr ucheldir eu targedu at rywogaethau penodol, ac yn gyffredinol maent wedi'u hanelu at greu mosaig amrywiol sy'n gallu cynnal ystod eang o rywogaethau nodweddiadol megis y frân goesgoch a fflora arfordirol arbennig megis Crinllys y Goedwig. Y llynedd, cefnogwyd mesurau rheoli ar 963ha o dir.

Yn 2016/17 gyda chymorth Coed Cadw, roedd Coed Cymru wedi gwneud archwiliad o rai o'n safleoedd coetir, gan gynnwys Cilrhedyn, Pengegin, Clun a Chilciffeth i asesu'r gwaith adfer mewn Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol a wnaed gan yr Awdurdod. Daeth yr adroddiadau i'r casgliad y gallai'r ardaloedd hynny o goetir lle gwaredwyd coed coniffer a'u hailstocio â rhywogaethau brodorol gael eu hailddosbarthu oddi ar 'Dan Fygythiad' i 'Diogel'.

- Mae'r Awdurdod yn parhau i gynorthwyo cymunedau, plant ysgol, darparwyr twristaidd ac unigolion i gymryd rhan mewn diogelu'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith gwirfoddoli a gwaith gweithredu cymdeithasol, cynllun wardeniaid gwirfoddol, cynllun parcmyn ieuenctid, cynllun sy'n gysylltiedig â darparwyr twristiaeth, a chynnwys cymunedau mewn gwaith rhywogaethau ymledol.

- Drwy Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol, rydym yn monitro pa mor effeithiol yw'r polisïau cynllunio i sicrhau bod datblygu adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a bod rhinweddau arbennig y Parc yn cael eu diogelu a'u gwella. Yn 2016/17 nid oedd unrhyw gymeradwyaeth wedi'i roi yn groes i Bolisi Strategaeth 8 Nodweddion Arbennig.

- Cafodd Partneriaeth Natur Leol Sir Benfro ei lansio eleni ac mae'r gwaith o lunio Cynllun Adfer Natur Sir Benfro ar y gweill. Nod y cynllun fydd ennyn diddordeb pobl drwy gynhyrchu cyfres o gynlluniau ar thema grŵp defnyddwyr (megis ysgolion, tyddynwyr, grwpiau cymunedol, busnesau twristiaeth) i hwyluso arwain pobl i'r cyfraniad y gallant ei wneud i helpu natur i adfer ei hun yn Sir Benfro. Mae'r Fforwm Arfordirol yn

y broses o ddatblygu cynllun Rheoli’r Blaendraeth, y disgwylir iddo gael ei gwblhau fis Mawrth 2018. Bydd y cynllun hwn yn fframwaith i helpu i flaenoriaethu ein gwaith yn y dyfodol yn y maes hwn.

| **Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 2** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflawni atebion sy’n seiliedig ar natur i gynnal a gwella cadernid ecosystemau'r Parc a’r ecosystemau ehangach. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysgu a chynnwys gwirfoddolwyr, disgyblion ysgol, darparwyr twristiaeth, cymunedau ac ymwelwyr mewn camau sy'n gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol. Cymryd ymagwedd sy’n seiliedig ar le yn ein gwaith. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithredu polisïau cynllunio i sicrhau bod yr adnoddau naturiol yn cael eu datblygu’n gynaliadwy, a diogelu a gwella rhinweddau arbennig y Parc. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Cyfrannu at rwydweithiau partneriaeth a'u cynorthwyo i gyflawni cynlluniau gweithredu sy'n cefnogi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyflwyno cynigion am gyllid i wneud gwaith cadwraeth. | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |

Gwneud y 5 Ffordd o weithio yn gymwys i’n gweithgareddau:

| | |
|---|---|
| Hirdymor | Mae’n ofynnol i’r Awdurdod fodloni’r ddyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch yr ecosystemau. Byddwn yn cymryd rhan yn y gwaith o greu Datganiadau Ardal. |
| Atal | Parhau i gyflawni atebion sy’n seiliedig ar natur megis gwaith ar rywogaethau ymledol, gwella’r cysylltiad rhwng cynefinoedd, pori, arferion rheoli tir a gwaith ar Goed a Warchodir.. |
| Integreiddio | Cefnogi’r gwaith o gyflawni Cynllun Adfer Natur Sir Benfro a’r Cynllun Rheoli'r Blaendraeth. |
| Cydweithio | Parhau i weithio gyda’r tirfeddianwyr, darparwyr twristiaeth a chymunedau i gyflawni atebion sy’n seiliedig ar natur. |
| Cynnwys | Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ysgol, cymunedau, ymwelwyr a rhanddeiliaid eraill gynorthwyo i edrych ar ôl y Parc. |

### Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol - Beth fydd yn ymddangos yn gamau ymlaen

Mae ein gweithgareddau yn cymryd ymagwedd ecosystem at gadwraeth ar dir, yn cynorthwyo i reoli rhywogaethau ymledol, yn hyrwyddo cadwraeth pridd mewn rheoli tir, ac yn diogelu ansawdd aer a dŵr. Mae ymagwedd sy'n seiliedig ar le yn rhoi grym i bobl gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol.

**Adnoddau a Ddyrannwyd i'r Amcan hwn (£000's): 1012**

## Amcan 2 Cydnerth - Fframwaith Perfformiad

| Mesur | 2016/17 Cyfredol | 2017/18 Targed | 2018/19 Targed | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| Safleoedd cadwraeth - % yn unol â'r Cynllun Rheoli | 100 (Gwyrdd) | 100 | 100 | Mae'r bioamrywiaeth a'r tir a reolir gan ac mewn partneriaeth â'r Awdurdod yn gwella neu'n cael ei gynnal. Mae'r gweithgaredd yn arwain at wella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd. [CRPC: L1, B1, G2, AW1, AW2, AW3, CC1, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol ] |
| Hectarau - tir sy'n cael cymorth drwy'r cynllun Gwarchod y Parc | 963 | 950 | 950 | |
| Hectarau - rhywogaethau ymledol wedi'u gwaredu yn y tarddiad/chwistrellu | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Drwy ddulliau sy'n seiliedig ar le, caiff rhywogaethau ymledol eu gwaredu yn y tarddiad, a gwneir y driniaeth ailadroddus angenrheidiol i atal y rhywogaethau rhag ail-dyfu. [CRPC: B1, B3, DE5] |
| # y ceisiadau i wneud gwaith i goed a warchodir y penderfynwyd yn eu cylch | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Mae coed a choetiroedd a warchodir yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu rheoli'n effeithiol. [CRPC: B1, AW1, AW2] |
| # y gorchmynion diogelu coed newydd a wnaed | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Nid yw'n berthnasol (Tuedd)) | |
| # y diwrnodau gwirfoddolwyr - Gwaith Cadwraeth | 467 | Meincnodi yn erbyn 2016/17 | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Drwy ddulliau sy'n seiliedig ar le mae gwirfoddolwyr yn helpu i wella iechyd ecosystem y Parc Cenedlaethol. [CRPC: B1, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol ] |
| # y Wardeniaid Gwirfoddol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | 70 | Mae wardeniaid gwirfoddol yn defnyddio eu sgiliau i helpu i wella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol. Mae ganddynt y sgiliau sydd eu |
| # yn mynychu diwrnodau astudio | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Wardeniaid Gwirfoddol | | | 2017/18 | hangen i gyflawni eu rolau gwirfoddol. [CRPC: B1, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol ] |
| # y diwrnodau gwirfoddolwyr – a dreuliwyd yn gwneud gwaith ar Rywogaethau Anfrodorol Goresgynnol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | B Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Drwy ddulliau sy'n seiliedig ar le, caiff rhywogaethau ymledol eu gwaredu yn y tarddiad a gwneir y driniaeth ailadroddus angenrheidiol i atal y rhywogaethau rhag ail-dyfu. [CRPC: B1, B3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol ] |
| # Mae Grwpiau Cymunedol sy'n Ymwneud â Rhywogaethau Ymledol yn gweithio'r chwarter hwn | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| # y datblygiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisïau gwarchod y dirwedd (Polisi 8 yn y Cynllun Datblygu Lleol) | 0 (Gwyrdd) | 0 | 0 | Bydd nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael eu gwarchod a'u gwella ac rydym yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad cynaliadwy Adnoddau Naturiol. [CRPC: L1, L3] |

| **Camau Gweithredu** | **Cerrig Milltir** | **Canlyniad** |
|---|---|---|
| Cymryd rhan ym Mhartneriaeth Natur Leol Sir Benfro - Cynlluniau Adfer Natur Cymunedol | • Cwblhau Cynllun Adfer Natur Sir Benfro Rhan 1<br>• Mae 2 gynllun ar waith ar gyfer grwpiau cymunedol sydd â diddordeb/neu ar gais y gymuned | Dulliau sy'n seiliedig ar le sy'n ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau mewn camau gweithredu lleol ar gyfer bywyd gwyllt. [CRPC: B1, B3, G2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol / Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd] |
| Cymryd rhan mewn gweithredu Cynllun Rheoli'r Blaendraeth | • Ennyn ymwybyddiaeth o'r cynllun ymhlith y staff<br>• Clustnodi meysydd blaenoriaeth i'r Awdurdod eu cyflawni<br>• Cynllun gweithredu ar gyfer y meysydd blaenoriaeth hyn | Cynnal a gwella ansawdd y morlun a'r swyddogaeth ecolegol drwy ddulliau rheoli morol ar lefel yr ecosystem. [CRPC: L2, B2, AW2, AW3] [Cynllun Llesiant: Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd] |
| Cyflwyno bidiau ariannu/ canlyniadau bid ariannu (Gwaith cadwraeth a gwella) | • Fframwaith ar waith i helpu i flaenoriaethu a datblygu prosiectau cadwraeth<br>• Cyllid wedi'i sicrhau i barhau â gwaith INNS y tu hwnt i 2019 | Mae'r Parc wedi sicrhau arian grant ar gyfer parhau â'r gwaith cadwraeth a gwella pellach. [CRPC: B1, B3, G2, AW1, AW2, AW3, DE5] |

| **Ansoddol, Gwerthuso, Adroddiadau** | **Cyfleoedd Dysgu** |
|---|---|
| Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol | Gwerthuso perfformiad yr Awdurdod yn erbyn dangosyddion y Cynllun Datblygu Lleol, gan glustnodi meysydd sy'n peri pryder a datblygiadau cadarnhaol. [CRPC: L1, L3] |

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar Reoli Tir Cadwraeth ac Amgylchedd Hanesyddol (Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol) | Gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau natur yr Awdurdod. Yn gweithredu fel ein Hadroddiad Bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. [CRPC: L1, B1, B3] |
| Adborth gan dirfeddianwyr sy'n rhan o'r Cynllun INNS | Defnyddio adborth gan dirfeddianwyr i ddylanwadu ar gyflawni ein gwaith cadwraeth er mwyn sicrhau ymyrraeth ac ymgysylltu effeithiol. [CRPC: B1, B3, G2, AW2, DE5] |

**Amcan Llesiant 3: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau**

**Ble ydym ni**

- Drwy weithio gyda'r Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru mae'r Awdurdod yn parhau i godi ymwybyddiaeth o fuddion iechyd a llesiant Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys edrych ar gyfleoedd i ddatblygu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd yr Awdurdod yn ceisio datblygu ymhellach ei berthynas â Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth hyrwyddo asedau iechyd y Parc.

- Mae'r Awdurdod yn hwyluso Rhwydwaith Gwasanaeth Iechyd Seiliedig ar Natur Gorllewin Cymru sy'n cynnig cyfleoedd i gomisiynwyr feithrin cysylltiadau â'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar lawr gwlad mewn cymunedau. Drwy'r cynllun Dewch i Gerdded/Walkability, mae'r Awdurdod wedi bod yn rhan o brescripsiynu cymdeithasol sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghenion iechyd pobl mewn modd holistaidd drwy gyfleoedd cerdded â chymorth wedi'u teilwra. Yn 2016/17 roedd 520 o gyfranogwyr wedi bod yn cerdded drwy'r cynllun atgyfeirio cleifion i wneud Ymarfer Corff yn ardal y Gogledd a Chanol y Parc.

- Roedd asesiad llesiant Sir Benfro wedi clustnodi ystod o heriau llesiant sy'n wynebu pobl ar draws y cwrs oedran yn y Sir. Ymhlith y meysydd a amlygwyd oedd y blynyddoedd cynnar, gordewdra ymhlith plant, arwahanrwydd cymdeithasol, iechyd meddwl a phobl ifanc, a phrofiadau pobl â dementia a gofalwyr. Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa dda i weithio mewn partneriaeth ag eraill i ddatblygu cynlluniau a phrosiectau a all helpu i fynd i'r afael â'r sialensau llesiant hyn. Gan gynnwys goresgyn arwahanrwydd cymdeithasol drwy wirfoddoli, gweithgareddau rhwng cenedlaethau, cyfleoedd cerdded â chymorth, a chynyddu mynediad i chwarae, gweithgareddau corfforol a'r awyr agored.

**Y Prosiect Llwybrau**

Nod y prosiect hwn a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw helpu mwy o bobl i dreulio amser yn yr awyr agored drwy gynnig cyfleoedd gwirfoddoli, dysgu a hyfforddi yn y Parc Cenedlaethol ac yn yr ardaloedd cyfagos. Nod y prosiect yw gwaredu rhai o'r rhwystrau a wynebir gan bobl sy'n dymuno chwilio am antur yng nghefn gwlad gyda chludiant wedi'i ddarparu ar gyfer llawer o'r gweithgareddau. Bydd y prosiect yn rhoi mwy na 2,000 o brofiadau gwirfoddoli dros gyfnod o dair blynedd, a bydd yn canolbwyntio ar bobl sydd am wella eu hiechyd a'u lles, yn ogystal â chael profiadau a sgiliau newydd wrth iddynt wneud gwelliannau i'r amgylchedd mewn cymunedau yn y Parc ac o gwmpas y Parc.

- Ffyniant i Bawb' Llywodraeth Cymru: mae'r strategaeth genedlaethol yn clustnodi tai fel un o'i feysydd blaenoriaeth, gan nodi mai 'sail byw yn dda yw cartref fforddiadwy o ansawdd da sy'n dod ag amrywiaeth helaeth o fuddion i iechyd, dysgu a ffyniant'. Mae darparu tai fforddiadwy yn faes a glustnodwyd yn Asesiad Llesiant Sir Benfro. Mae darparu tai fforddiadwy yn y Parc yn parhau i fod yn her i'r Awdurdod gyda mwy o dai

wedi'u cwblhau yn fwy diweddar. Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried fel rhan o ddiwygio'r Cynllun Datblygu Lleol.  Yn ogystal, yn 2016/17, enillwyd £427,204.80 o gyfraniadau ariannol drwy gytundebau Adran 106.

| **Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 3** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu cyfleoedd partneriaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd drwy Rwydwaith Gwasanaethau Iechyd Naturiol Gorllewin Cymru a gweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru. Datblygu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r gwaith hwn. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Hyrwyddo lles a gwydnwch ar draws y cwrs bywyd trwy fentrau sy'n canolbwyntio ar chwarae yn yr awyr agored, gwirfoddoli, mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol a gwella iechyd meddwl. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Parhau i gynnig cyfleoedd cerdded â chymorth yn y Parc drwy'r cynllun Dewch i Gerdded (Walkability) a hyrwyddo cyfleoedd cerdded a chyfleoedd eraill o ffitrwydd yn y Parc Cenedlaethol i gymunedau lleol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Cynnwys plant yn Sir Benfro a thu hwnt mewn gweithgareddau corfforol ac yn yr awyr agored drwy ein rhaglen addysg a gweithgareddau. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Defnyddio polisïau cynllunio i hyrwyddo tai fforddiadwy. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Gwneud y 5 Ffordd o weithio yn gymwys i'n gweithgareddau:

**Hirdymor**
Drwy ddarparu tai fforddiadwy a chyfraniadau A106, cynorthwyo pobl i gael mynediad i gartrefi fforddiadwy o ansawdd da yn y Parc.

**Integreiddio**
Parhau i ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol drwy Rwydwaith Gwasanaethau Iechyd Naturiol Gorllewin Cymru i gysylltu pobl yn effeithiol â llesiant a chymorth.

**Atal**
Defnyddio arbenigedd yr Awdurdod ac asedau iechyd y Parc Cenedlaethol i ddatblygu mentrau sy'n mynd i'r afael â heriau llesiant a pheri newid mewn ymddygiad.

**Cydweithio**
Gweithio gyda grwpiau cymunedol i gynnal a chynyddu cyrhaeddiad cyfleoedd cerdded yn y Parc drwy ddarparu hyfforddiant i arweinyddion teithiau cerdded.

**Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol - Beth fydd yn ymddangos yn gamau ymlaen**

Mae ein gweithgareddau yn cael gwared ar rwystrau i fwynhau'r Parc Cenedlaethol a galluogi mwy o bobl i elwa ar asedau iechyd y Parc. Gwireddir hyn drwy ddulliau sy'n rhoi grym i bobl gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol ac sy'n hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol fel lle ysbrydoledig i ddysgu a datblygu yn bleserus yn yr awyr agored.

**Adnoddau a Ddyrannwyd i'r Amcan hwn (£000's): 776**

## Amcan 3 Iechyd a Lles - Fframwaith Perfformiad

| Mesur | 2016/17 Cyfredol | 2017/18 Targed | 2018/19 Targed | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| # y diwrnodau gwirfoddolwyr | 1608 | Meincnodi yn erbyn llynedd | Meincnodi yn erbyn 2017/18 (Y cynnydd a ddisgwylir yn sgîl Llwybrau) | Mae pobl yn datblygu sgiliau, hyder ac ymdeimlad o berthyn drwy gyfleoedd gwirfoddoli yn y Parc. Drwy gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Parc mae pobl yn teimlo eu bod yn buddsoddi yn nyfodol y Parc. [CRPC: DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored / Cyfranogiad Cymunedol] |
| # y cyfranogwyr mewn sesiynau dysgu yn yr awyr agored | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae gan fwy o blant fynediad at ddysgu yn yr awyr agored a'i fanteision. [CRPC: B4, DE2, DE3] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| # y sesiynau hyfforddi ar gyfer dysgu yn yr awyr agored i athrawon | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | 10 | Mae gan athrawon y sgiliau i ddarparu sesiynau dysgu yn yr awyr agored. [CRPC: B4, DE2, DE3] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| # yr athrawon sydd wedi'u hyfforddi mewn dysgu yn yr awyr agored | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | 50 | |
| # y cyfranogwyr o'r Cynllun Walkability | 1689 | Meincnodi yn erbyn llynedd | 2300 | Gwaredir rhwystrau i gyfleoedd i bobl gerdded. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles pobl ac yn ennyn mwy o hyder i fynd allan i gerdded ar eu pen eu hunain neu gydag eraill. Mae newid mewn ymddygiad yn y tymor hirach yn bosibilrwydd. [CRPC: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | DE1, DE2 ] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| # y teithiau cylchol a lawrlwythwyd | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Mae pobl yn ymwybodol o’r wybodaeth ac yn defnyddio’r wybodaeth i'w helpu i gymryd rhan mewn cyfleoedd cerdded yn y Parc. [CRPC: DE1, DE2] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| # yr arweinwyr grwpiau sydd wedi’u hyfforddi trwy sesiynau hyfforddi arweinwyr teithiau cerdded | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | 14 | Mae mwy o grwpiau cerdded hunangynhaliol yn gweithredu yn Sir Benfro, gan alluogi mwy o bobl i gael budd o gyfleoedd i gerdded. [CRPC: DE1, DE2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| # y bobl sy’n defnyddio llwybrau troed (o rifyddion sefydlog) | 176425 | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Mae pobl yn Sir Benfro yn defnyddio llwybrau troed ac yn elwa o gyfleoedd cerdded. [CRPC: DE1] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| # cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau corfforol | 18122 | Meincnodi yn erbyn 2016/17 | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae pobl yn elwa o’r cyfleoedd i fod yn egnïol yn gorfforol tra hefyd yn gwerthfawrogi'r dirwedd o'u cwmpas. [CRPC: B4, DE1, DE3] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| # cyfranogwyr ar deithiau cerdded dan arweiniad y parcmyn, staff canolfannau a gwirfoddolwyr | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| # cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ffitrwydd | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| # Plant ysgol yn cymryd rhan mewn sesiynau corfforol egnïol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae plant yn elwa o gael mynediad i'r awyr agored a chyfleoedd i fod yn egnïol yn gorfforol. Cyfleoedd i gyfrannu at newid mewn ymddygiad yn y tymor hirach. [CRPC: DE2, DE3 ] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| # Plant ysgol yn cymryd rhan mewn teithiau cerdded dan arweiniad staff APCAP | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| % yr ysgolion yn y Parc Cenedlaethol sy’n cymryd rhan mewn sesiynau corfforol egnïol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| % yr ysgolion yn Sir Benfro sy’n cymryd rhan mewn sesiynau corfforol egnïol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| % yr Unedau Tai a gymeradwywyd sy'n fforddiadwy | 26.15 | Nid yw'n berthnasol (Gweler yr | Nid yw'n berthnasol (Gweler yr | Mae darparu tai fforddiadwy yn yr ardal yn galluogi pobl i gael mynediad i gartref fforddiadwy o |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| # Unedau Tai Fforddiadwy a gymeradwywyd | 17 | adroddiad perfformiad blynyddol ac adroddiad monitro blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol am y cyd-destun) | adroddiad perfformiad blynyddol ac adroddiad monitro blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol am y cyd-destun) | fewn y Parc Cenedlaethol gyda'r manteision iechyd sy'n deillio o hynny. [CRPC: L1, L3, DE2, DE5] [Cynllun Llesiant: Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth] |
| Cyfraniadau cytundebau Adran 106 | £427,204.80 | | | |

| Camau Gweithredu | Cerrig Milltir | Canlyniad |
|---|---|---|
| Gweithio gyda Rhwydwaith Gwasanaeth Iechyd Naturiol Gorllewin Cymru | • Hwyluso Cyfarfodydd Rhwydwaith Iechyd Naturiol Gorllewin Cymru<br>• Clustnodi cyfleoedd cydweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru | Mae 'asedau iechyd' y Parc yn cael eu cydnabod a'u defnyddio gan y gwasanaethau iechyd mewn partneriaeth â'r Awdurdod i fanteisio i'r eithaf ar y buddion iechyd i'r boblogaeth leol. [CRPC: DE2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| Datblygu sylfaen dystiolaeth i ategu polisïau iechyd a lles a gwaith prosiect. | • Memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar waith gyda Phrifysgol Abertawe<br>• Ceisiadau ariannu llwyddiannus gyda Phrifysgolion ar gyfer prosiectau ymchwil | Y dystiolaeth ar gael ac yn hygyrch i hyrwyddo 'asedau iechyd' y Parc mewn polisïau i wneud y mwyaf o'r buddion iechyd i bobl. [CRPC: DE2, DE3, DE5] |
| Cyflawni Prosiect Llwybrau a datblygu llysgenhadon gwirfoddol ac arweinwyr cerdded gwirfoddol | • Cyflwyno rhaglen o weithgareddau i wirfoddolwyr, cynnal grwpiau gwirfoddol wythnosol rheolaidd<br>• Recriwtio grwpiau/ sefydliadau i weithio gyda gwirfoddolwyr a chyflwyno hyfforddiant iddynt<br>• Recriwtio Llysgenhadon Awyr Agored<br>• Cynnal diwrnod Dathlu a Rhannu | Mae mwy o bobl yn manteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu hiechyd a'u lles. Mae pobl yn datblygu sgiliau, hyder ac ymdeimlad o berthyn drwy gyfleoedd gwirfoddoli yn y Parc. [CRPC: DE2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol / Dathlu'r awyr agored / Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth] |
| Ymchwilio i ymarferoldeb cynllun Peilot y 1000 Diwrnod Cyntaf. | • Opsiynau'r prosiect wedi'u clustnodi a'u gwerthuso.<br>• Ffynonellau cyllid ar gyfer y peilot wedi'u clustnodi | Clustnodi'r peilot i helpu i adeiladu arferion gweithgarwch corfforol iach mewn teuluoedd cyn-ysgol, lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a datblygu rhwydweithiau cymdeithasol, gan gyfrannu at yr agenda blynyddoedd cynnar a lliniaru profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. [CRPC: D2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| Datblygu Gwybodaeth am Adnoddau Iechyd gan ganolbwyntio ar redeg | • Llwybrau addas wedi'u clustnodi<br>• Cod ymddygiad rhedeg | Mae mwy o bobl yn Sir Benfro yn elwa o gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn y Parc. Mae'r |

| | | |
|---|---|---|
| | wedi'i ddatblygu<br>• Cwmpasu opsiynau digidol<br>• Ymgysylltu â Grwpiau Rhedeg<br>• Cyllid wedi'i sicrhau os oes angen<br>• Set o adnoddau digidol yn eu lle | gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal yn ddiogel ac nid ydynt yn cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr eraill y Parc. [CRPC: B4, DE2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| Menter Sir Benfro 'Dewch i Gerdded' | • Ymgysylltu parhaus â'r grŵp llywio<br>• Datblygu camau newydd o weithredu<br>• Cyflawni camau newydd o weithredu | Mae mwy o bobl yn Sir Benfro yn elwa o gerdded yn ddyddiol a chymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol. [CRPC: B4, DE2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |

| **Ansoddol, Gwerthuso, Adroddiadau** | **Cyfleoedd Dysgu** |
|---|---|
| Gwerthuso'r Cynllun Dewch i Gerdded | Dangos effaith y cynllun Dewch i Gerdded a dylanwadu ar ddatblygiad y cynllun yn y dyfodol. [CRPC: B4, DE2, DE3, DE5][ Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored ] |
| Gwerthuso'r Ysgolion Awyr Agored | Dangos effaith Ysgolion Awyr Agored a llywio'r gwaith yn y dyfodol yn y maes hwn. [CRPC: B4, DE2, DE3, DE5][ Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored ] |
| Astudiaethau achos o effaith ymyrraeth llesiant gan gynnwys adborth gan gyfranogwyr. | Gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau llesiant yr Awdurdod [CRPC: B4, DE2, DE3, DE5 ] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored / Ymgysylltu ystyrlon ] |

## Amcan Llesiant 4: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC

**Ble ydym ni**

- Cafodd cydraddoldeb ei glustnodi gan staff yn y gweithdai adolygu Llywodraethiant gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2016/17 yn faes gwella i'r Awdurdod, a chydnabyddir bod angen gwneud rhagor o waith i gyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio offer allweddol i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn, gan gynnwys asesiadau o effaith cydraddoldeb, cyflawni'r camau o weithredu o'r archwiliadau ar gyfathrebu a gwasanaethau, codi ymwybyddiaeth, meithrin cysylltiadau â sefydliadau eraill a chynnwys staff ac Aelodau yn y broses hon.

- Mae'r Awdurdod wedi gwella ei ddulliau o gasglu data ar fonitro cydraddoldeb y gweithlu, gan arwain at gyfleoedd gwell i ddadansoddi data i helpu i glustnodi camau allweddol i gynyddu amrywiaeth yn y gweithlu. Ar hyn o bryd mae canran y wybodaeth ar fonitro cydraddoldeb y gweithlu ar Pobl y Parc yn uwch na 70%.

- Yn 2016/17 ymgysylltwyd â 4301 o bobl drwy ein gwaith cynhwysiant cymdeithasol. Roedd y Cynllun Llesiant Sir Benfro drafft wedi clustnodi natur wledig y Parc fel blaenoriaeth gan gynnwys mynd i'r afael â thlodi gwledig yn ei ffrydiau gwaith. Bydd yr Awdurdod yn edrych ar sut y gall alinio ei waith cynhwysiant cymdeithasol i allu bod yn fwy o gymorth i'r rhai sy'n byw mewn tlodi gwledig yn y Parc a'r ardaloedd cyfagos. Gan gynnwys ystyried materion sy'n ymwneud â thlodi tanwydd a bwyd, gweithio tymhorol, cynhwysiant digidol a thrafnidiaeth ac effaith Credyd Cynhwysol fydd yn cael ei gyflwyno i Ganolfannau Gwaith Sir Benfro ar gyfer hawlwyr newydd fis Medi.

- Fis Rhagfyr 2017 roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pasio'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Un nod y Bil oedd sicrhau bod pob dysgwr (plant a phobl ifanc 0-25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau dysgu a gallu cyflawni eu potensial llawn. Rhan bwysig o'r gwaith addysg a wneir gan yr Awdurdod yw cynnig cyfleoedd addysgol yn yr awyr agored a datblygu sgiliau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Twristiaeth hygyrch a chynhwysol - Hyrwyddo a chynyddu mynediad**

Mae'r Awdurdod wedi chwarae rhan bwysig wrth hwyluso mwy o fynediad i'r Parc, o gael gwared ar gamfeydd i ddatblygu llwybrau cerdded sy'n addas i gadeiriau olwyn a chyfleoedd i gael Cadeiriau Olwyn y Traeth. O fis Ebrill tan fis Medi 2017 cafodd dros 200 o fapiau teithiau cerdded ar gyfer cadair olwyn eu lawr-lwytho o wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn gyson yn adolygu'r cyfleoedd mynediad a gynigir ar ei safleoedd ei hun, a bydd yn ceisio gweithio gyda Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru ac ar draws y DU i weld sut all Parciau Cenedlaethol gynnig mwy o dwristiaeth hygyrch a chynhwysol. Byddwn yn ceisio datblygu cysylltiadau â sefydliadau cydraddoldeb ac eraill all ein cynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

- Mae datblygu Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol diwygiedig yn cynnig cyfle i weithredu model o ymgysylltu i bobl ifanc ddylanwadu ar ddyfodol y Parc. Mae hefyd yn cynnig y cyfle i ddatblygu a defnyddio dulliau newydd o ymgysylltu.

| **Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 4** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithio gyda staff i sicrhau bod gwasanaethau a'r gweithle yn hawdd eu cyrraedd ac yn gynhwysol drwy weithredu camau o archwiliadau cydraddoldeb a gweithgareddau ennyn ymwybyddiaeth. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Datblygu dealltwriaeth staff ynghylch pam bod angen gwybodaeth monitro cydraddoldeb. Dadansoddi data a datblygu camau o weithredu lle bo angen. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Sicrhau bod cyflogau yn cael eu talu'n deg, gan gynnwys parhau i dalu cyflog byw (oni bai na ellir ei fforddio). | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Cyflawni gwaith cynhwysiant cymdeithasol sy'n chwalu'r rhwystrau i gael mynediad i'r Parc a'i fuddiannau. Gan gynnwys edrych ar sut y gallwn ni roi mwy o gymorth i'r rhai sy'n byw mewn tlodi cefn gwlad. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hyrwyddo a chynorthwyo cyfleoedd twristiaeth hygyrch a chynhwysol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithredu'r model ymgysylltu ar gyfer pobl ifanc wrth baratoi'r Cynllun Rheoli Cenedlaethol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Gwneud y 5 Ffordd o weithio yn gymwys i'n gweithgareddau:

**Hirdymor** – Bydd y gweithgareddau yn cyfrannu at gyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 yr Awdurdod.

**Atal** – Bydd defnyddio asesiadau effaith ar gydraddoldeb, gweithredu camau a glustnodwyd o archwiliadau, a mynd i'r afael ag anghenion mynediad ar safleoedd, yn gymorth i gael gwared ar rwystrau.

**Integreiddio** – Datblygu sgiliau ac ymrwymiad staff ac Aelodau i alluogi'r Awdurdod gyflawni gwasanaethau a gweithleoedd cynhwysol a hygyrch.

**Cydweithio** – Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a chyflawni cyfleoedd twristiaeth hygyrch, gan gynnwys gweithio gyda busnesau lleol i gynnal Cadeiriau Olwyn y Traeth.

**Cynnwys**

Ymgysylltu â phobl ifanc ac ystod ehangach o bobl er mwyn llywio datblygiad y Cynllun Rheoli Cenedlaethol a meysydd eraill o waith. .

**Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol - Beth fydd yn ymddangos yn gamau ymlaen**

Mae gweithgareddau'r Awdurdod wedi gwaredu rhwystrau i fwynhad pobl o'r Parc sy'n galluogi mwy o bobl i elwa o rinweddau arbennig y Parc ac i ryngweithio â'r rhinweddau hynny. Ystyrir bod y Parc yn lle ysbrydoledig i bawb, ac mae mwy o bobl yn cael eu grymuso i gyflawni Dibenion y Parc Cenedlaethol.

**Resources allocated to this Objective (£000's): 676**

## Amcan 4 Cydraddoldeb - Fframwaith Perfformiad

| Mesur | 2016/17 Cyfredol | 2017/18 Targed | 2018/19 Targed | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| # Sgrinio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb wedi'i gwblhau | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Nid yw penderfyniadau a pholisïau'n effeithio'n negyddol ar grwpiau gwarchodedig, a lle nad yw camau lliniarol yn bosibl gellir cyfiawnhau penderfyniadau. [CRPC: HE3, B4, DE2, DE3, DE4, DE5] |
| # Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | |
| % yr Wybodaeth Monitro Cydraddoldeb a gwblhawyd ar Pobl y Parc | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | 70 | Bydd hyn yn darparu'r data sylfaenol ar gyfer dadansoddiad pellach o amrywiaeth y gweithlu a chamau gweithredu posibl y mae eu hangen. Mae staff yn gwybod pam fo angen gwybodaeth ac ar gyfer beth y bydd yn cael ei defnyddio. [CRPC: DE2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth] |
| # pobl yr ymgysylltwyd â hwy drwy weithgareddau cynhwysiant cymdeithasol | 4301 | Meincnodi yn erbyn 2016/17 | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae'r rhwystrau i gael mynediad i'r Parc Cenedlaethol a'i Rinweddau Arbennig yn cael eu goresgyn. Effaith bositif i unigolion a grwpiau sy'n gweithio gyda chymunedau difreintiedig sydd wedi ymgysylltu â'r Parc. [CRPC: DE2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol ] |
| # Parcmyn Ieuenctid gweithredol y chwarter hwn | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | 15 | |
| # cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy drwy ein gwaith cynhwysiant cymdeithasol gyda phobl ifanc | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| # y lawrlwythiadau ar gyfer teithiau cadeiriau olwyn | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Gwelir y Parc Cenedlaethol a Sir Benfro fel Canolfan Twristiaeth Hygyrch. Nid yw pobl yn cael eu heithrio rhag cael profiadau yn y Parc Cenedlaethol a'i rinweddau arbennig. [CRPC: DE1, DE2, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored ] |
| # Cadw Cadeiriau Olwyn y Traeth | 8 | 8 | 8 | |

| Camau Gweithredu | Cerrig Milltir | Canlyniad |
|---|---|---|
| Cymryd y camau o weithredu a glustnodwyd o'r archwiliad o'r gwasanaethau wynebu cwsmeriaid a hyrwyddo i glustnodi bylchau wrth ddarparu gwasanaethau a rhwystrau i grwpiau penodol. | • Archwiliadau wedi'u cwblhau ac argymhellion wedi'u bwydo'n ôl<br>• Yr argymhellion wedi'u rhoi ar waith<br>• Gweithgareddau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth wedi'u targedu yn dilyn archwiliad | Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu ein gallu i wella gwasanaethau i grwpiau a glustnodwyd a chymryd ymagwedd wedi'i dargedu at wella hygyrchedd a gwneud ein gwasanaethau yn fwy cynhwysol. [CRPC: HE3, B4, DE1, DE2, DE3, DE4, DE5] [ Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| Data Monitro Cydraddoldeb ar ymgeiswyr wedi'i gyflwyno mewn adroddiad, ei ddadansoddi a chamau gweithredu yn cael eu clustnodi yn flynyddol | • Data Monitro Cydraddoldeb wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gwella Rhan 2<br>• Camau gweithredu wedi'u clustnodi o ddadansoddi data<br>• Gweithredu system o wneud cais am swydd ar-lein | Mae'r staff ac ymgeiswyr yn derbyn gwybodaeth ac yn darparu gwybodaeth am fonitro cydraddoldeb. Mae camau sy'n seiliedig ar ddadansoddi data yn arwain at gynyddu amrywiaeth y gweithlu lle bo angen. [CRPC: DE2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth] |
| Datblygiad o ran newidiadau i raddfeydd yr NJC | • Dosbarthu gwybodaeth am y newid i'r staff<br>• Gweithredu ymateb yr Awdurdod i'r newid yng ngraddfeydd yr NJC | Mae'r staff yn parhau i gael eu talu'n deg. [CRPC: DE2, DE5] |
| Ail-alinio gwaith Cynhwysiant Cymdeithasol i ystyried materion sy'n ymwneud â thlodi gwledig | • Sefydlu is-weithgor o'r gweithgor Iechyd a Llesiant i adolygu a datblygu argymhellion<br>• Yr is-weithgor i roi adborth i'r argymhellion i'r Aelodau a'r Tîm Arweinyddiaeth | Mae gwaith cynhwysiant cymdeithasol yr Awdurdod yn ymateb i anghenion unigolion yn y Parc a'r ardaloedd cyfagos sy'n wynebu tlodi gwledig ac arfordirol. [CRPC: DE2, DE5] [Cynllun Llesiant: Gwneud pethau'n wahanol] |
| Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo twristiaeth hygyrch a chynhwysol | • Cydweithio gydag Awdurdodau Parciau eraill<br>• Gweithgareddau Hyrwyddo<br>• Ymgysylltu â sefydliadau cydraddoldeb | Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael ei ystyried yn ganolfan dwristiaeth hygyrch. Nid yw pobl yn cael eu heithrio rhag cael profiadau yn y Parc Cenedlaethol a mwynhau'r Parc. [CRPC: HE3, B4, DE1, DE2, DE3, DE4, DE5] [ Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored ] |
| Gweithredu'r model ymgysylltu ar gyfer pobl ifanc wrth baratoi Cynllun Rheoli'r Parc | • Cyfarfodydd â rhanddeiliaid perthnasol<br>• Ymgymryd â gwaith peilot o ymgysylltu | Mae plant a phobl ifanc yr ardal yn ymwybodol o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Parc a'i Rinweddau Arbennig. [CRPC: DE3, DE5] [Cynllun |

| | | |
|---|---|---|
| Cenedlaethol. | • Mecanweithiau adborth yn eu lle | Llesiant:  Ymgysylltu ystyrlon] |

| Ansoddol, Gwerthuso, Adroddiadau | Cyfleoedd Dysgu |
|---|---|
| Adborth gan Staff a'r Aelodau | Gwerthuso pa mor effeithiol yw perfformiad yr Awdurdod ar gydraddoldeb a chyflawni gweithle cynhwysol. [CRPC: L1, B1, B3] |
| Astudiaethau achos o effaith gweithgareddau cynhwysiant cymdeithasol, gan gynnwys adborth gan gyfranogwyr | Gwerthuso pa mor effeithiol yw ymyriadau llesiant yr Awdurdod a gwella ein hymyriadau a'n cynigion cynhwysiant cymdeithasol. [CRPC: L1, B1, B3] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored/ Ymgysylltu ystyrlon] |

## Amcan Llesiant 5: Annog cymunedau i ymgysylltu'n fwy â'r Parc Cenedlaethol

**Ble ydym ni**

- Mae dulliau seiliedig ar le yn cael eu hyrwyddo ym Mholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Bydd yr Awdurdod yn ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid mewn sgwrs barhaus am y Parc i lywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol diwygiedig. Y gobaith yw y bydd hyn yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth o'r cynllun ymhlith y cymunedau a'r rhanddeiliaid.

- Roedd Asesiad Llesiant Sir Benfro yn clustnodi nifer o heriau sy'n wynebu pobl oherwydd natur wledig y Sir. Ymhlith yr heriau mae mynediad cyfyngedig i wasanaethau, tai, trafnidiaeth, cysylltedd digidol, tlodi tanwydd a chyfleoedd cyflogaeth. Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn fewnol i archwilio a datblygu atebion arloesol i'r heriau natur wledig sy'n wynebu cymunedau yn y Parc.

- Bydd yr Awdurdod yn parhau i gyfrannu at ennyn cydnerthu cymunedol yn y Parc drwy weithio gyda grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr ac ysgolion i ddarparu prosiectau cymunedol. Byddwn yn ystyried defnyddio digwyddiadau pop-yp a dulliau newydd o ymgysylltu i ennyn diddordeb cynulleidfa ehangach o bobl a chodi ymwybyddiaeth o'r Parc, ei rinweddau arbennig a'r Awdurdod.

**Parcmyn yn gweithio gyda chymunedau - Gweithredu Cymdeithasol ar Waith**

Mae ein Parcmyn yn helpu i hwyluso cyfleoedd i ddisgyblion ysgol, cymunedau a sefydliadau gymryd rhan mewn mentrau gweithredu cymdeithasol sy'n cyfrannu at newid cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol yn y Parc a'r ardaloedd cyfagos. Er enghraifft, mae myfyrwyr ar y Cwrs Paratoi ar gyfer y Fyddin o goleg Sir Benfro yn cymryd rhan mewn rhaglen waith 3 diwrnod gyda'r Awdurdod i weithio ar y llwybrau troed yng Nghwm Gwaun, yn gwaredu Jac y Neidiwr ar safle cadwraeth newydd yn Nhrefdraeth, ac yn cynorthwyo'r Archeolegydd Cymunedol i symud cerrig ar henebion rhestredig ac yn cofnodi difrod i chwarel y Garreg Las.

- Mae Oriel y Parc, Castell Henllys a Chaeriw wedi cynnal ffeiriau gydol y flwyddyn sydd wedi dod â chymunedau ynghyd ac yn cynnig cyfleoedd i fusnesau lleol gynnal stondin.  Mae nifer o grwpiau cymunedol yn cyfarfod yn Oriel y Parc ar hyn o bryd. Gan gynnwys Plantos Penfro, grwpiau sy'n cyflwyno plant i'r iaith Gymraeg drwy ganeuon, straeon a gweithgareddau crefft, a'r Caffi Cof sy'n cynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia a heriau cof, a'u gofalwyr.

- Proses gwneud 'cwyn' neu 'ymholiad' yw gorfodaeth cynllunio yn bennaf, er y bydd yr Awdurdod yn monitro yn rheolaidd y datblygiadau sydd â chaniatâd cynllunio a'r datblygiadau hynny sy'n gofyn am gyflawni amodau cynllunio. Felly ni all gwasanaeth gorfodi fod yn effeithiol heb gymorth y cymunedau o fewn y Parc. Dros fisoedd yr haf

2017/18, bu’r Awdurdod yn cyflawni gwaith ymgysylltu gorfodaeth wedi'i dargedu oedd yn canolbwyntio ar safleoedd carafanau. Canlyniad y gwaith hwn oedd cwymp yn nifer y cwynion sy’n ymwneud â Safleoedd Carafanau.

| **Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 5** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â chymunedau mewn sgwrs barhaus am y Parc i lywio’r gwaith o ddatblygu’r Cynllun Rheoli Cenedlaethol diwygiedig. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Drwy gynllun gweithredu yr Awdurdod ar ymgysylltu, datblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl, gan gynnwys defnyddio ymgysylltu ar-lein a digwyddiadau pop-yp. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithio'n fewnol a gydag eraill, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i ddatblygu atebion arloesol i heriau natur wledig y sir. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hyrwyddo gwydnwch y gymuned drwy gynnwys cymunedau mewn prosiectau, gwirfoddoli a chyfleoedd gweithredu cymdeithasol yn y Parc. Cymryd ymagwedd sy’n seiliedig ar le ac ymgysylltu â chymunedau newydd yn ein gwaith. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Defnyddio asedau'r Parc i roi’r cyfle i gymunedau ddod ynghyd ac i roi’r cyfle iddynt ddweud eu straeon eu hunain am y Parc Cenedlaethol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyflawni gwasanaeth gorfodaeth gynllunio effeithiol gyda chymorth y gymuned. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Gwneud y 5 Ffordd o weithio yn gymwys i’n gweithgareddau:

| | |
|---|---|
| Hirdymor | Cymryd ymagwedd sy’n seiliedig ar le at brosiectau cymunedol a gwirfoddoli fydd yn helpu i hyrwyddo cynaliadwyedd yn y tymor hir. |
| Atal | Ymdrin â’r heriau sy'n ymwneud â natur wledig y sir fydd yn gymorth i gymunedau yn y Parc fod yn gynaliadwy ac yn gadarn i'r dyfodol. |
| Integreiddio | Cynorthwyo'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus â'i ddulliau mapio asedau, gan ddysgu o'r arferion gorau y maent yn eu clustnodi a rhannu ein hesiamplau ni.. |
| Cydweithio | Gweithio gyda’r staff, Aelodau, rhanddeiliaid a chymunedau i glustnodi atebion posibl i oresgyn heriau sy'n gysylltiedig â natur wledig ardaloedd yn y Parc. |

**Cynnwys** | Ymgysylltu â phobl ifanc ac ystod ehangach o bobl i lywio datblygiad y Cynllun Rheoli Cenedlaethol a meysydd eraill o waith.

**Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol - Beth fydd yn ymddangos yn gamau ymlaen**

Mae gan gymunedau o fewn y Parc berchnogaeth o'r Cynllun Rheoli Cenedlaethol diwygiedig ac mae ganddynt y grym i helpu i wireddu ei nodau. Mae'r rhwystrau sy'n wynebu gallu cymunedau i fwynhau'r Parc yn cael eu gwaredu ac mae pobl yn cael eu cynnwys a'u grymuso i helpu i edrych ar ôl y Parc.

**Adnoddau a Ddyrannwyd i'r Amcan hwn (£000's): 683**

## Amcan 5 Cymunedau - Fframwaith Perfformiad

| Mesur | 2016/17 Cyfredol | 2017/18 Targed | 2018/19 Targed | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| # y rhai a oedd yn bresennol mewn digwyddiadau dros dro | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae mwy o gymunedau ac ystod ehangach o bobl yn ymwybodol o'r Parc, ei rinweddau arbennig a gwaith yr Awdurdod. [CRPC: D1, D2, D3, DE5] [Cynllun Llesiant: Gwneud pethau'n wahanol] |
| # diwrnodau gweithredu cymdeithasol | Data Sylfaenol | Data Sylfaenol | Data Sylfaenol | Drwy weithredu cymdeithasol mae pobl yn cael eu grymuso i ofalu am y Parc a theimlo eu bod yn buddsoddi yn nyfodol y Parc. [CRPC: DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol] |
| # Prosiect Cymunedol/ Gweithgareddau Ymgysylltu | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae cymunedau'n teimlo eu bod yn ymgysylltu â'r Parc gyda manteision i'r ddwy ochr, gan feithrin cysylltiadau cymunedol cadarnhaol a chydnerthedd. [CRPC: DE2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol] |
| # Digwyddiadau cymunedol a ffeiriau a gynhelir mewn canolfannau | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae cyfleusterau'r Parc yn cael eu defnyddio i ddod â chymunedau ynghyd gan feithrin cysylltiadau cymunedol cadarnhaol a chael gwared ar arwahanrwydd cymdeithasol. [CRPC: DE2, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol] |
| # Grwpiau cymunedol sy'n defnyddio Oriel y Parc y chwarter hwn | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| % yr achosion gorfodaeth a | 54% | Meincnodi yn erbyn | Meincnodi yn erbyn | Mae gwasanaeth gorfodaeth cynllunio effeithiol yn ei le, gyda |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ymchwiliwyd (o fewn 84 diwrnod) | | 2016/17 | 2017/18 | chefnogaeth cymunedau. [CRPC: L3, HE7, HE8, DE5] [Dangosydd Llywodraeth Cymru] |
| Yr amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodaeth mewn diwrnodau | 199 | Meincnodi yn erbyn 2016/17 | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| Yr amser cyfartalog a gymerir i gymryd camau gorfodaeth mewn diwrnodau | 284 | Meincnodi yn erbyn 2016/17 | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| # ceisiadau cynllunio ôl-weithredol a gofrestrwyd | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol (Tuedd) | Mae gwasanaeth gorfodaeth cynllunio effeithiol yn ei le, gyda chefnogaeth cymunedau. [CRPC: L3, HE7, HE8, DE5] |

| Camau Gweithredu | Cerrig Milltir | Canlyniad |
|---|---|---|
| Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol | • Cytundeb Cyflawni wedi'i gymeradwyo (APC Mehefin 2018)<br>• Drafft ac adolygu'r Cynllun (Gorffennaf - Rhagfyr 2018)<br>• Gweithdy Aelodau (Gwanwyn 2019) | Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Diwygiedig yn ei le erbyn diwedd 2019 (blwyddyn galendr) a berchnogir gan y cymunedau a'r rhanddeiliaid. Sgwrs barhaus am y Parc yn cael ei rhoi ar waith. [CRPC: D5] [Cynllun Llesiant: Ymgysylltu ystyrlon] |
| Treialu'r dulliau newydd o ymgysylltu a glustnodwyd yn y cynllun gweithredu ar ymgysylltu | • Dulliau newydd o ymgysylltu wedi'u clustnodi yn y cynllun gweithredu ar ymgysylltu<br>• Dulliau newydd o ymgysylltu wedi'u treialu | Mae pobl yn cael eu grymuso i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol ac i ddylanwadu ar waith yr Awdurdod a phartneriaid. [CRPC: DE2, DE5] [Cynllun Llesiant: Ymgysylltu ystyrlon] |
| Gweithio yn fewnol a gydag eraill gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu atebion arloesol i heriau natur wledig y Parc | • Gweithgor mewnol ar natur wledig wedi'i sefydlu<br>• Argymhellion gweithgor wedi'u cyflwyno gerbron yr Aelodau a'r Tîm Arweinyddiaeth<br>• Y Prif Weithredwr yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Ni fydd pobl sy'n byw yn y cymunedau gwledig yn y Parc o dan anfantais oherwydd lle maent yn byw. [CRPC: DE2, DE5] [Cynllun Llesiant: Gwneud pethau'n wahanol] |
| Ymgysylltu â Ffermwyr Ifanc a Grwpiau Cymunedol eraill yn y Parc i adfer safleoedd o ddiddordeb hanesyddol | • Cyflwyniadau wedi'u gwneud i grwpiau<br>• Rhaglen o weithgareddau wedi'i chyflawni gyda grwpiau | Mae cymunedau yn cydnabod gwerth safleoedd hanesyddol yn y Parc. Mae safleoedd hanesyddol yn cael eu hadfer yn y Parc drwy gyfranogiad y gymuned. [CRPC: HE2, HE3, HE6, DE2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol ] |
| Gwaith yn ymgysylltu â grwpiau a chymunedau cymunedol newydd drwy INNS | • Gwaith INNS wedi'i wneud gyda chymunedau yn y Cwm, Abergwaun | Mae cymunedau yn teimlo eu bod yn ymgysylltu â'r Parc gyda manteision i'r ddwy ochr, sy'n gymorth i feithrin cysylltiadau cymunedol cadarnhaol. [CRPC: B3, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol ] |
| Prosiectau dehongli sy'n | • Clustnodi prosiectau | Mae cymunedau yn teimlo eu bod yn |

| | | |
|---|---|---|
| cynnwys ac yn cefnogi grwpiau cymunedol i ddweud eu stori am y Parc Cenedlaethol | posibl.<br>• Cyllid ar gyfer y prosiectau arfaethedig<br>• Prosiectau wedi'u cynllunio<br>• Prosiectau wedi'u cyflawni | ymgysylltu â'r Parc ac yn rhan o adrodd hanes y Parc, gan gyfoethogi naratif y Parc iddynt eu hunain ac i eraill. [CRPC: B4, DE4, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored / Cyfranogiad Cymunedol ] |
| Clirio ôl-groniad o achosion gorfodaeth hanesyddol | • Ôl-groniad o achosion gorfodaeth hanesyddol wedi'u clirio | Mae gwasanaeth gorfodaeth cynllunio effeithiol yn ei le. [CRPC: L3, HE7, HE8, DE5] |

| Ansoddol, Gwerthuso, Adroddiadau | Cyfleoedd Dysgu |
|---|---|
| Astudiaethau achos o weithredu cymdeithasol a gwaith a wnaed gyda chymunedau, gan gynnwys adborth gan gyfranogwyr | Enghreifftiau o sut y gall gweithredu cymdeithasol fod o fudd i'r Parc ac i'r unigolion dan sylw. Adborth i lywio dulliau a blaenoriaethau yn y dyfodol [CRPC: B1, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol / Ymgysylltu ystyrlon] |

**Amcan Llesiant 6: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.**

**Ble ydym ni**

- Mae Pyrth i'r Parc Cenedlaethol yn gymorth i bobl wybod eu bod yn y Parc Cenedlaethol ac yn tynnu sylw at rinweddau arbennig y Parc. Mae panel gwybodaeth wedi'i ddatblygu yn Saundersfoot, mae panel newydd yn cael ei arddangos yn Amgueddfa Dinbych-y-pysgod, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo gyda siambr twristiaeth Abergwaun ac Wdig i hyrwyddo'r ardal fel Porth i'r Parc Cenedlaethol.

- Mae'r Awdurdod yn cynnig ystod o weithgareddau diwylliannol a hanesyddol ar hyd a lled y Parc. Mae ein canolfannau yng Nghastell Henllys, Castell a Melin Caeriw a'r Oriel yn Oriel y Parc yn dod â hanes, treftadaeth a thirwedd yr ardal a'r celfyddydau yn fyw i'r bobl sy'n byw yn lleol ac ymhellach i ffwrdd. Roedd 203,331 o bobl wedi ymweld â'r canolfannau yn 2016/17, ac roedd pob un o'r atyniadau wedi derbyn Tystysgrif Rhagoriaeth Trip Advisor yn 2017. Roedd 6,248 o blant wedi elwa o'r rhaglen addysg yng Nghastell Henllys ac yng Nghaeriw yn 2016/17.

- Yn dilyn llwyddiant y prosiect Aspire, bydd Oriel y Parc yn cynnal arddangosfa o Le Passeur, William Stott o Oldham, rhwng Chwefror a Medi 2018 drwy'r Bartneriaeth ag Oriel y Tate. Wedi'i ariannu drwy'r Gronfa Gelf, y Loteri Treftadaeth a Sefydliad John Ellerman, Tyddewi yw'r unig leoliad yng Nghymru lle bydd y gwaith yn cael ei arddangos.

- Mae'r Awdurdod yn bwriadu chwalu'r rhwystrau i fynediad at hanes, treftadaeth a'r celfyddydau. Bydd Criw Celf yn trefnu pump dosbarth Meistr yn Oriel y Parc gan ymarferwyr celf i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 o bob rhan o Sir Benfro, ac yn dilyn bydd arddangosfa o waith y disgyblion. Drwy'r cynllun Llwybrau bydd gwirfoddolwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddwbio'r tŷ crwn yng Nghastell Henllys. Bydd yr ail dŷ crwn yn cael ei adeiladu yn 2018/19 fydd yn cynnig cyfleoedd pellach i ymgysylltu. Mae ein harcheolegydd cymunedol yn helpu grwpiau newydd o bobl i ymgysylltu ac edrych ar ôl henebion yn y Parc.

**Prosiectau SDF - Diogelu a chynyddu mynediad i'r gorffennol**

Mae'r prosiect SDF wedi ariannu nifer o brosiectau treftadaeth. Gan gynnwys gwaith cadwraeth a dehongli yr Odyn Ganoloesol (heneb cofrestredig) yn Neuadd Goffa Trefdraeth. Mae hyn yn creu atyniad treftadaeth ddiwylliannol newydd drwy agor y lle i'r cyhoedd. Mae SDF yn ariannu'r prosiect Amser Arwyr, sef prosiect lle bydd archeolegydd cymunedol yr Awdurdod yn gweithio gydag ysgolion cynradd i'w hannog i 'fabwysiadu' heneb treftadaeth leol.

- Mae'r Awdurdod yn parhau i gynghori perchnogion adeiladau a safleoedd hanesyddol ar reoli drwy ei Swyddog Cadwraeth Adeiladau, ac yn 2016/17 roedd nifer yr adeiladau mewn perygl yn 5.7% gan gyrraedd y targed o <6%.

- Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gefnogi'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn yr Awdurdod a'r Parc, ac yn 2017/18 cytunodd yr Awdurdod ar ei strategaeth Iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys cynyddu nifer y digwyddiadau, gweithgareddau a phrosiectau sydd ar gael yn Gymraeg.

| **Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 6** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu Porth i adnoddau dehongli y Parc Cenedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd eu bod mewn Parc Cenedlaethol. | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ymgysylltu â phobl ynglŷn â'r gweithiau celf a arddangosir yn Oriel y Parc, a pharhau i gefnogi'r cynllun artist preswyl. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hyrwyddo diwylliant ac amgylchedd hanesyddol drwy Gastell Caeriw a Chastell Henllys, rhaglen ysgolion, gwaith dehongli a digwyddiadau a gweithgareddau. | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi grwpiau cymunedol yn y Parc i adfer safleoedd o ddiddordeb hanesyddol. | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynghori perchnogion adeiladau a safleoedd hanesyddol ar ddulliau rheoli. | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Annog staff i ddysgu a siarad Cymraeg yn y gweithle, ac i ymgysylltu â chwsmeriaid a chyfranogwyr Cymraeg eu hiaith. | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Gwneud y 5 Ffordd o weithio yn gymwys i'n gweithgareddau:

**Hirdymor** — Gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg i helpu i gynorthwyo uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Atal** — Parhau i gynghori perchnogion adeiladau a safleoedd hanesyddol ar ddulliau rheoli.

**Integreiddio** — Defnyddio gwybodaeth o archwiliadau cyfleoedd Porth i'r Parc Cenedlaethol i gydlynu darpariaeth dehongli yn y dyfodol ar hyd a lled y Parc.

**Cydweithio** — Cynnal arddangosfeydd mewn partneriaeth ag Oriel y Tate, a pharhau i weithio gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru i arddangos eu casgliad cenedlaethol.

**Cynnwys** — Ymgysylltu â chymunedau a gwirfoddolwyr a'u cefnogi i ddiogelu a gwarchod safleoedd archeolegol a hanesyddol..

**Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol - Beth fydd yn ymddangos yn gamau ymlaen**

Mae ein gweithgareddau yn gymorth gyda'r gwaith o reoli'r amgylchedd adeiledig hanesyddol ac yn codi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd hwn ac yn annog bod safleoedd archeolegol yn cael eu rheoli'n rhagweithiol. Mae nodweddion unigryw y safleoedd hyn yn cael eu gwella a'u cadw. Mae pobl yn dathlu'r cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth, tirwedd a diwylliant ac yn cael eu grymuso i helpu i warchod a diogelu'r amgylchedd hanesyddol.

**Adnoddau a Ddyrannwyd i'r Amcan hwn (£000's): 1049**

## Amcan 6 Diwylliant - Fframwaith Perfformiad

| Mesur | 2016/17 Cyfredol | 2017/18 Targed | 2018/19 Targed | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| # yr ymwelwyr â'r Oriel | 41762 (Gwyrdd) | Meincnodi yn erbyn 2016/17 | Benchmarked against 2017/18 ac orielau eraill | Mae pobl yn ymwneud â gwaith celf o'r Casgliad Cenedlaethol. [CRPC: B4, DE4] |
| Sgôr Gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Caeriw | Nid yw'n berthnasol | 4.5 | 4.5 | Mae pobl yn cael profiad cadarnhaol fel ymwelwyr yng Nghaeriw, Castell Henllys ac yn Oriel y Parc fel ein Canolfannau hanesyddol a diwylliannol. [CRPC: B4, HE3, HE6, DE4] |
| Sgôr Gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Castell Henllys | Nid yw'n berthnasol | 4.5 | 4.5 | |
| Sgôr Gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Oriel y Parc | Nid yw'n berthnasol | 4.5 | 4.5 | |
| # cyfranogwyr mewn gweithgareddau a digwyddiadau hanesyddol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae ymwelwyr a'r trigolion lleol yn gwerthfawrogi ac yn deall ac yn gwybod mwy am hanes yr ardal. [CRPC: B4, HE3, DE4] |
| Castell Henllys - # plant ysgol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen addysg | Nid yw'n berthnasol | 4930 | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae plant ysgol yn gwerthfawrogi ac yn deall ac yn gwybod mwy am hanes yr ardal. [CRPC: HE3, DE3, DE4] |
| Caeriw - # plant ysgol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen addysg | Nid yw'n berthnasol | 1233 | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| % Adeiladau mewn Perygl | 5.7 (Gwyrdd) | <6 | <6 | Mae Nifer yr Adeiladau mewn Perygl yn parhau i fod yn llai na 6%. [CRPC: HE6, HE8] |
| # y safleoedd o ddiddordeb hanesyddol y mae cymunedau yn ymwneud â hwy | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae cymunedau yn cydnabod gwerth safleoedd hanesyddol yn y Parc. Mae safleoedd hanesyddol yn cael eu hadfer yn y Parc. [CRPC: HE2, HE3] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol ] |
| # Gweithgareddau a | Nid yw'n | Data | Meincnodi | Y staff a'r cyhoedd yn ymwneud |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gyflawnir gan y Parcmyn, Darganfod a Chanolfannau yn Gymraeg | berthnasol | Sylfaenol | yn erbyn 2017/18 | mwy â'r iaith Gymraeg. [CRPC: B4/DE2/DE4] |
| # cyfranogwyr mewn gweithgareddau a gyflawnir gan y Parcmyn, Darganfod a Chanolfannau yn Gymraeg | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| # Sesiynau ysgol a gyflawnir yn Gymraeg | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae plant ysgol yn ymwneud â'r Parc Cenedlaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. [CRPC: B4, DE3, DE4] |
| # Plant Ysgol sy'n mynychu sesiynau ysgol a gyflawnir yn Gymraeg | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |

| Camau Gweithredu | Cerrig Milltir | Canlyniad |
|---|---|---|
| Datblygu pyrth i'r Parc Cenedlaethol, y tu mewn i'r Parc ac mewn ardaloedd cyfagos | • Cwblhau paneli ar draws y Parc<br>• Cyfleoedd ar gyfer Adnoddau Pyrth a ddatblygwyd yn ardal Abergwaun/Wdig | Y cyhoedd yn fwy ymwybodol ac yn gwerthfawrogi eu bod yn y Parc Cenedlaethol. [CRPC: B4, HE3, DE3. DE4] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| Cyflawni'r prosiect Criw Celf, gan gynyddu mynediad i'r celfyddydau i blant ysgol yn Oriel y Parc | • 5 dosbarth Meistr a gyflwynir gan ymarferwyr celf i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6.<br>• Arddangosfa o waith y disgyblion – Haf 2018 | Y cyhoedd yn fwy ymwybodol ac yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau diwylliannol rhwng pobl a thirweddau. [CRPC: B4, HE3, DE2, DE3. DE4] [Cynllun Llesiant: Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth ] |
| Diweddaru'r strategaeth ar gyfer gweithio gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru | • Gwaith cyn negodi a strategaeth<br>• Cytundeb Drafft<br>• Cytundeb wedi'i gymeradwyo ac yn ei le | |
| Cynnwys grwpiau addysg/ cynhwysiant cymdeithasol a wardeiniaid yn y gwaith o adeiladu tai crwn yng Nghastell Henllys | • Mae grwpiau yn cymryd rhan yn y gwaith o adeiladu ail dŷ crwn<br>• Adeiladu ail dŷ crwn wedi'i gwblhau | Deall a gwybod mwy am dechnegau adeiladu tai crwn a hanes Castell Henllys. [CRPC: HE2, HE3, HE6, DE2, DE3] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol ] |
| Cyflawni Prosiect Arwyr Amser SDF | • Cynnal rhaglen lawn o weithgareddau gyda 3 ysgol erbyn diwedd Gorffennaf 2018.<br>• Cynnal rhaglen lawn o weithgareddau gyda 4 ysgol arall (gan ddechrau fis Medi 2018) erbyn Ebrill 2019.<br>• Sicrhau bod caniatâd heneb gofrestredig a chaniatâd SSI yn ogystal â chaniatâd y tirberchennog | Y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd hanesyddol a'r bobl wedi'u grymuso i reoli a gwarchod henebion. Henebion yn y Parc yn cael eu gwarchod. [CRPC: HE2, HE3, HE6, DE2, DE3] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored/ Cyfranogiad Cymunedol] |

| | | |
|---|---|---|
| | yn eu lle ar gyfer unrhyw waith a wneir gan y prosiect ar y safleoedd.<br>• Trefnu rhaglen waith yn y dyfodol ar gyfer y safleoedd hynny. | |
| Gweithredu Strategaeth y Gymraeg | • Cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu ac amcanion SMART yn eu lle | Y staff a'r cyhoedd yn ymwneud mwy â'r Gymraeg. [CRPC: B4, DE2, DE3, DE5][Cynllun Llesiant: Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth / Cyfranogiad Cymunedol ] |

| **Ansoddol, Gwerthuso, Adroddiadau** | **Cyfleoedd Dysgu** |
|---|---|
| Adborth Athrawon a Disgyblion | Dangos dysgu drwy gynnig addysg ar hanes. Defnyddio adborth i wella'r addysg a gynigir gennym. [CRPC: HE3, DE3, DE4] |
| Sylwadau ar Fwrdd Sialc, Trip Advisor ac adborth arall o'r Canolfannau | Dangos dysgu drwy'r addysg hanes a diwylliant a gynigir. Defnyddio'r adborth i wella'r gwaith dehongli hanes a gynigir. [CRPC: B4 , HE3, DE3, DE4] |
| Canmoliaeth a chwynion - Yr Iaith Gymraeg | Defnyddio'r adborth i wella'r hyn a gynigir yn Gymraeg. Defnyddio canmoliaeth defnyddwyr i helpu i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol yn fewnol ac yn allanol. [CRPC: DE2, DE5] |

**Adborth gan ymwelwyr a osodwyd ar fwrdd sialc Castell Henllys:**

**Llwybr troednoeth a hyfforddiant rhyfelwr gwych**

**Ardderchog, diddorol iawn, staff cyfeillgar, ein 'border terrier' wrth ei fodd. Diolch i chi am fod yn safle sy'n gyfeillgar i gŵn.**

**Ymweliad ardderchog. Hyfryd i glywed cymaint o Gymraeg, hefyd diddorol dros ben. (Excellent visit. Lovely to hear so much Welsh, also incredibly interesting)**

**Gwelon ni llawer o adar a bugs (We saw a lot of birds and bugs)**

**Ymwelais 20 mlynedd yn ôl ac mae dal diddordeb gennyf**

**Ymweld â Henllys oedd uchafbwynt fy ngwyliau yng Nghymru**

## Amcan Llesiant 7: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang

**Ble ydym ni**

- Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth gefnogi prosiectau cynaliadwyedd arloesol. Yn ystod 2016/17 roedd adolygiad o'r gronfa wedi dangos bod nifer o'r prosiectau yn parhau i gyflawni buddion amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ymhell ar ôl i'r cyllid ddod i ben.

**Cronfa Datblygu Cynaliadwy - Hyrwyddo Arloesedd**

Mae'r prosiect Datblygu Cadwyn Cyflenwi Ynni Adnewyddadwy Morol (MRESCD) sy'n cael ei gyflawni gan Fforwm Arfordirol Sir Benfro yn asesu gallu cadwyn cyflenwi cwmnïau Sir Benfro, gyda'r potensial i arallgyfeirio i'r diwydiant Ynni Adnewyddadwy Morol (MRE).

- Mae Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru yn clustnodi cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau fel blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i hyrwyddo dulliau carbon bositif, a bydd yn ceisio dysgu o ganlyniadau prosiect Carbon Bositif Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn 2017 llwyddodd Castell Caeriw, Oriel y Parc a Chastell Henllys i ennill y wobr eco-label Goriad Gwyrdd ar gyfer darparwyr twristiaeth.

- Mae'r Awdurdod wedi bod yn hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy drwy ddarparu cyllid tuag at y gwasanaeth bws arfordirol drwy'r Bartneriaeth Lonydd Glas. Ar hyn o bryd, dim ond un pwynt gwefru cerbyd trydan sydd ar gael yn y Parc a hynny yn Oriel y Parc yn Nhyddewi. Mae'r cyfleuster hwn wedi'i ddefnyddio'n helaeth ers iddo gael ei osod. Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan. Fel rhan o'r bartneriaeth hon mae'r Awdurdod yn ymchwilio i'r modd y gall hwyluso twf pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn y Parc.

- Mae 10,944 o blant wedi cael y cyfle i ddarganfod mwy am y Parc a'i rinweddau arbennig drwy ein rhaglen ysgolion yn 2016/17. Mae 2018 fel Blwyddyn y Môr yn gyfle gwych i addysgu pobl am lygredd morol.

- Drwy'r prosiect arfordir sy'n newid, y cynllun tirweddau bregus, a'r cynllun gwirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith monitro cadwraeth a bioamrywiaeth, mae pobl yn cymryd rhan mewn ffordd ymarferol drwy fonitro a chofnodi effaith newid yn yr hinsawdd a newidiadau i dirweddau, ecosystemau ac amgylchedd hanesyddol y Parc. Byddwn yn ceisio datblygu cyfleoedd i hyrwyddo dulliau gwyddoniaeth dinasyddion yn y gwaith a wnawn, drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr ac addysgu pobl i gofnodi a monitro tirweddau ac ecosystemau'r Parc.

- Fel Parc arfordirol sy'n ymateb ac yn addasu i effaith erydiad arfordirol a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd ar y Parc, mae asedau a chymunedau'r Parc o'r pwys mwyaf. Drwy weithio gyda phartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gweithio gyda

chymunedau a thirfeddianwyr a drwy ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol 2, byddwn yn ceisio cynorthwyo cymunedau a'r Parc i addasu i'r heriau hyn.

| **Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 7** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio grantiau SDF i annog prosiectau arloesol sy'n cefnogi'r agenda twf gwyrdd, Nodau Llesiant ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hyrwyddo dulliau carbon cadarnhaol ac effeithlonrwydd adnoddau yn ein gwaith ac o fewn y Parc, gan gynnwys Gwneud ein Fflyd yn fwy Gwyrdd. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Hyrwyddo cludiant cynaliadwy o fewn y Parc. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysgu disgyblion ysgol, cymunedau ac ymwelwyr am Rinweddau Arbennig y Parc drwy weithgareddau a chyfleoedd dehongli. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynnwys pobl i gofnodi newidiadau yn y dirwedd, bioamrywiaeth a henebion yn y Parc, a datblygu ymagwedd gwyddor dinasyddiaeth. | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol ac eraill i ymateb i risgiau newid yn yr hinsawdd. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Gwneud y 5 Ffordd o weithio yn gymwys i'n gweithgaredda

**Hirdymor** — Cynnwys polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig sy'n mynd i'r afael ag effaith newidiadau arfordirol ar anheddau a chymunedau.

**Atal** — Cymryd rhan yn yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd i Sir Benfro wrth i'r asesiad gael ei ddatblygu. .

**Integreiddio** — Gweithio gydag eraill drwy'r cynllun Llwybrau Gleision a phartneriaethau eraill i ddatblygu atebion trafnidiaeth gynaliadwy gan gynnwys rhwydwaith o bwyntiau gwefru trydan.

**Cydweithio** — Cefnogi prosiectau cynaliadwyedd arloesol sy'n cynnig cyfleoedd dysgu ehangach yn y tymor hir a chefnogi'r agenda Twf Gwyrdd. .

**Cynnwys** — Cynnwys pobl i gofnodi newidiadau yn y dirwedd, henebion a bioamrywiaeth yn y Parc drwy ein prosiectau arfordir newidiol a chyfleoedd eraill

**Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol - Beth fydd yn ymddangos yn gamau ymlaen**

Mae gweithgareddau'r Awdurdod yn rhoi grym i fwy o bobl gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol ac yn gymorth i bobl ddarganfod a mwynhau'r Parc Cenedlaethol. Mae'r gweithgareddau yn gymorth i greu economi carbon isel, yn cynyddu ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd, ac yn cyfrannu at ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr.

**Adnoddau a Ddyrannwyd i'r Amcan hwn (£000's): 674**

## Amcan 7 Byd Eang - Fframwaith Perfformiad

| Mesur | 2016/17 Cyfredol | 2017/18 Targed | 2018/19 Targed | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| % Gronfa Datblygu Cynaliadwy a ddyrannwyd | Nid yw'n berthnasol | 100% | 100% | Mae holl arian y gronfa CDC yn cael ei ddyrannu. Mae'r prosiectau yn cyfrannu at gyflawni twf gwyrdd yng Nghymru, y Nodau Llesiant, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Llesiant Sir Benfro. [CRPC: DE5, CC2] [Cynllun Llesiant: Sir Carbon Niwtral] |
| Allyriadau carbon blynyddol Kg | 870313 (Dull newydd o gyfrifo) | Meincnodi yn erbyn 2016/17 | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Mae allyriadau CO2 yn parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn [CRPC: AW1, CC2] [Cynllun Llesiant: Sir Carbon Niwtral] |
| Sgôr adborth ysgolion ar gyfartaledd (1-11) | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | 10 | Mwy o ddealltwriaeth am nodweddion arbennig y Parc. [CRPC: DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| # Plant ysgol sy'n ymwneud â'r rhaglen addysg | 10944 | Meincnodi yn erbyn 2016/17 | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| Sgôr adborth y cyhoedd ar gyfartaledd (1-11) | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | 10 | Mwy o ddealltwriaeth am nodweddion arbennig y Parc. [CRPC: B4, DE1, DE3, DE4] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored] |
| # y cyfranogwyr yn y rhaglen o weithgareddau (cyhoedd) | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | |
| # Gwobrau John Muir i Deuluoedd a roddwyd | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | 10 | |
| # y ffotograffau a gyflwynwyd fel rhan o'r prosiect Arfordir Newidiol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Meincnodi yn erbyn 2017/18 | Roedd pobl yn cymryd rhan mewn creu cofnod ar ffurf lluniau o'r broses o newid arfordirol. Defnyddir y dystiolaeth ar gyfer addysg bellach, ymgysylltu a dibenion llunio polisïau. [CRPC: CC2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyfranogiad Cymunedol / Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd ] |
| # Cyflwyniadau o luniau Tirweddau Bregus | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Roedd pobl yn cymryd rhan mewn monitro henebion er mwyn gallu cymryd camau i'w diogelu. [CRPC: CC2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol / Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd ] |
| # Diwrnodau gwirfoddoli - Arolwg neu Fonitro Cadwraeth Bywyd Gwyllt | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | Mwy o gofnodion a data ar fioamrywiaeth. Mae pobl yn teimlo eu bod yn cyfrannu ac yn deall bioamrywiaeth yn eu hardal leol. [CRPC: B1, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Cyfranogiad Cymunedol / Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd ] |
| # digwyddiadau ffurfiol y tywydd yr ymatebodd yr Awdurdod iddynt | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol (Tuedd) | Yr Awdurdod yn ymateb yn effeithiol ac yn amserol i ddigwyddiadau tywydd garw. [CRPC: B1, DE1, DE5] [Cynllun Llesiant: Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd ] |
| Amser cyfartalog o gwblhau gwiriadau a achosir gan ddigwyddiadau tywydd garw | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | |
| # Galwadau argyfwng oherwydd y tywydd yr ymatebwyd iddynt (ar wahân i ddigwyddiadau a achoswyd gan y tywydd) | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol (Tuedd) | |
| Amser cyfartalog ymateb i alwadau argyfwng oherwydd y tywydd (ar wahân i ddigwyddiadau a achoswyd gan y tywydd) | Nid yw'n berthnasol | Nid yw'n berthnasol | Data Sylfaenol | |

| Camau Gweithredu | Cerrig Milltir | Canlyniad |
|---|---|---|
| Adolygu effeithlonrwydd adnoddau o fewn yr Awdurdod | • Adolygu Polisi Amgylcheddol yr Awdurdod 2015 -18<br>• Adolygu effeithlonrwydd adnoddau o fewn y Tîm Cyflawni<br>• Datblygu menter gyda’r staff i leihau defnydd untro o blastig<br>• Castell Henllys – cymryd | Mae allyriadau $CO_2$ yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn ac mae gan yr Awdurdod fecanweithiau effeithiol ar waith i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd adnoddau. [CRPC: AW1, AW2, CC1, CC2, DE5] [Cynllun Llesiant: Sir Carbon Niwtral] |

| | | |
|---|---|---|
| | camau o ran Gwobr 'Goriad Gwyrdd | |
| Gwneud ein Fflyd yn fwy Gwyrdd - Rheoli a Chaffael | • Creu polisïau amgylcheddol ar gyfer rheoli a chaffael fflyd | Mae dulliau'r Awdurdod ei hun o reoli'r fflyd yn cael effaith gadarnhaol ar allyriadau $CO_2$ a gwella ansawdd yr aer. [CRPC: L5, AW1, CC1, CC2, DE5] [Cynllun Llesiant: Sir Carbon Niwtral] |
| Cadarnhau'r gefnogaeth barhaus i'r gwasanaethau bysiau (Lonydd Glas) | • Yr Awdurdod wedi cytuno i barhau â'r cyllid ar gyfer 2019/20 (yn amodol ar drefniadau partneriaeth) | Y preswylwyr ac ymwelwyr yn gallu parhau i gael mynediad i ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol drwy'r gwasanaeth heb orfod dibynnu ar geir i gyrraedd yr ardaloedd hyn. [CRPC: L5, AW1, CC1, CC2, DE5] [Cynllun Llesiant: Sir Carbon Niwtral] |
| Gweithio gyda Phartneriaid i ddatblygu rhwydwaith o Bwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | • Yr arian wedi'i sicrhau<br>• Y seilwaith yn ei le<br>• Gosod pwyntiau<br>• Hyrwyddo'r pwyntiau | Mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio ceir trydan yn y Parc. Effaith gadarnhaol ar allyriadau $CO_2$ ac ansawdd yr aer. [CRPC: L5, AW1, CC1, CC2, DE5] [Cynllun Llesiant: Sir Carbon Niwtral/ Gwneud pethau'n wahanol ] |
| Defnyddio dulliau dehongli i gynyddu ymwybyddiaeth o effaith sbwriel Morol ar ein bywyd gwyllt a'r arfordir | • Yr arian wedi'i sicrhau ar gyfer prosiectau<br>• Prosiectau wedi'u cyflawni | Codi ymwybyddiaeth o effaith sbwriel Morol ar ein bywyd gwyllt a'r arfordir. [CRPC: L2, B2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored ] |
| Datblygu peilot gwyddoniaeth Dinasyddion | • Y prosiect gwyddoniaeth dinasyddion wedi'i ddatblygu<br>• Yr opsiynau cyllido'r prosiect wedi'u harchwilio | Mae pobl yn cymryd rhan ymarferol mewn monitro cadwraeth gan ddod â buddion a gwybodaeth i'r unigolyn, i'r Awdurdod ac i'r Parc. [CRPC: B1, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Dathlu'r awyr agored / Cyfranogiad Cymunedol ] |
| Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol ar ddatblygu Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro | • Presenoldeb mewn Cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• Ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru<br>• y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - Asesiad Risg Drafft Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro wedi'i greu | Mae'r Awdurdod wedi cyfrannu at ddatblygu Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro. [CRPC: B1, DE2, DE3, DE5] [Cynllun Llesiant: Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd ] |
| Cynllun Tywydd Garw | • Creu Cynllun Tywydd Garw sy'n amlinellu'r hyn a wnawn, ein hamser ymateb a pha bryd y mae'r cynllun yn cael ei sbarduno. | Ymateb ffurfiol i ddigwyddiadau tywydd garw mewn lle drwy'r Cynllun Tywydd Garw. [CRPC: B1, DE1, DE5] |

| Ansoddol, Gwerthuso, Adroddiadau | Cyfleoedd Dysgu |
|---|---|
| Adroddiadau diwedd prosiectau y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) | Mae gwerthuso'r prosiectau yn dangos eu heffaith a dysgu mwy am y buddiannau i'r Awdurdod ac yn allanol. [CRPC: |

| | |
|---|---|
| | DE5, CC2]  [Cynllun Llesiant: Sir Carbon Niwtral/ Gwneud pethau'n wahanol ] |
| Adborth gan athrawon, disgyblion a phobl sy'n mynychu ein digwyddiadau | Defnyddio adborth i wneud gwelliannau i'r modd yr ydym yn cyflwyno gwasanaethau addysg a gweithgareddau a digwyddiadau [CRPC: DE3, DE5] |
| Astudiaethau achos o ymyriadau sy'n cyfrannu at ddarpariaeth Stoc Carbon - plannu coed, rheoli tir | Mae'r enghreifftiau o'r modd y mae ein hymyriadau yn cyfrannu at y ddarpariaeth stoc carbon, ac unrhyw ddysgu o hyn. [CRPC: CC1] [Cynllun Llesiant: Sir Carbon Niwtral] |

## Llywodraethu Effeithiol a Chynaliadwyedd Ariannol

### Llywodraethu o fewn yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod llawn yn cwrdd o leiaf chwe gwaith bob blwyddyn i ystyried materion polisi a gwneud penderfyniadau ynghylch eitemau nad ydynt wedi’u dirprwyo i’r Prif Weithredwr. Mae’r Awdurdod llawn yn pennu’r gyllideb bob mis Chwefror. Mae’r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cwrdd bob chwe wythnos i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. Adroddir ar berfformiad gweithredol bob chwarter wrth y Pwyllgor Adolygu Gweithredol gydag adroddiadau cyllid ac archwilio’n cael eu cyflwyno’n chwarterol hefyd i’r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac Archwilio. Gall y ddau bwyllgor adolygu argymell yr angen am weithredu pellach wrth yr Awdurdod llawn. Hefyd, mae cyfarfodydd Rheolwyr wythnosol a chyfarfodydd Arweinwyr Timau misol yn adolygu perfformiad.

Yn dilyn adolygiad canol tymor mae’r cylch cynllunio perfformiad yn ailddechrau i baratoi’r gyllideb a blaenoriaethau corfforaethol ar gyfer y flwyddyn ganlynol gyda chyfres o weithdai a fynychir gan Aelodau.

### Ble ydym ni

- Yn 2016/17 bu Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud adolygiad Llywodraethu o'r Awdurdod. Fel rhan o hyn, cynhaliwyd arolwg a gweithdai gyda'r Staff a'r Aelodau. Y meysydd allweddol a glustnodwyd ar gyfer gwella o'r gwaith hwn oedd craffu, cyfathrebu, ymgysylltu, y broses arfarnu, cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg. Yn ystod 2017/18, bu Swyddfa Archwilio Cymru yn edrych ar 'Sefydlu'r Prosiect Llwybrau' fel rhan o'i waith ar ddatblygu dulliau newydd o Archwilio. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r adborth o'r gwaith peilot a wnaed gyda'r Awdurdod ac eraill i gael gwybodaeth am y modd y mae'n dangos y pum ffordd o weithio yn ei waith ac wrth wneud penderfyniadau.

- Yn 2017/18 collwyd 7.82 o ddiwrnodau gwaith i absenoldeb oherwydd salwch fesul cyflogai. Bydd yr Awdurdod yn parhau i hyrwyddo gweithle iach ac i fonitro digwyddiadau iechyd a diogelwch.

- Yn 2017/18 gwelodd yr Awdurdod nifer o gynrychiolwyr newydd y Cyngor Sir ac Aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynorthwyo a datblygu sgiliau’r Aelodau yn eu gwahanol rôlau. Fel rhan o hyn, bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio tuag at y Siarter Aelodaeth Uwch.

- Daw'r Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol i rym ar 25 Mai 2018 ac mae Bil Gwarchod Data yn mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi bod yn paratoi i weithredu’r rheoliadau. Bydd yr Awdurdod yn parhau i godi ymwybyddiaeth ymysg y staff a sicrhau bod mecanweithiau priodol yn eu lle ac yn gweithio'n effeithiol.

- Oherwydd yr hinsawdd gyfredol o adnoddau cyfyngedig, mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i glustnodi cyllid o ffynonellau eraill. Yn 2017/18 roedd yr Awdurdod wedi recriwtio Rheolwr Cyllid Allanol i gynorthwyo gyda’r gwaith o glustnodi a mynd ar drywydd y ffynonellau hyn. Ar y 7fed o Chwefror 2018 cytunodd yr Awdurdod Parc

Cenedlaethol i sefydlu Ymddiriedolaeth Elusennol i gefnogi gwaith ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a galluogi codi arian o ystod ehangach o ffynonellau.

| **Sut y byddwn yn cyflawni mewn perthynas â Llywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwaith a wnaed yn y gweithdai ac arolwg o farn y staff a'r Aelodau ac adborth o'r gwaith peilot. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymryd rhan yn y cyfleoedd ymgysylltu ar dirweddau dynodedig a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Parhau i hyrwyddo gweithle iach a monitro ac atal digwyddiadau iechyd a diogelwch. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Datblygu Sgiliau Aelodau drwy gyflawni Siarter Aelodaeth uwch. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg, Dyletswyddau Cydraddoldeb, Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Parhau i gynnal y gwaith o fonitro'r cyfryngau. | ✓ | | | | ✓ | | |
| Codi arian o ffynonellau eraill a sefydlu Ymddiriedolaeth Elusennol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Gwneud y 5 Ffordd o weithio yn gymwys i'n gweithgareddau:

| | |
|---|---|
| Hirdymor | Bydd creu incwm o ffynonellau eraill yn gymorth i gynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod dros y tymor hir. |
| Atal | Bydd mecanweithiau iechyd a diogelwch effeithiol ac amgylchedd gwaith iach yn hyrwyddo gweithlu iach.. |
| Integreiddio | Sicrhau bod egwyddorion cyfranogi wedi ymwreiddio ar draws yr Awdurdod ac yn gwella cyfathrebu mewnol. |
| Cydweithio | Gweithio gydag Aelodau i sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i hyrwyddo llywodraethu da a'r pum ffordd o weithio wrth wneud penderfyniadau. |
| Cynnwys | Cynnwys y staff wrth gyflawni'r gwaith o gydymffurfio â Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data. |

**Beth fydd yn ymddangos yn gamau ymlaen**

**Llywodraethu:** Mae gan yr Awdurdod fecanweithiau llywodraethu effeithiol ar waith sy'n cymryd y pum ffordd o weithio i ystyriaeth.

**Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol:** Mae gan yr Awdurdod fesurau llywodraethu effeithiol ar waith ac mae'n gynaliadwy yn ariannol sy'n ei alluogi i barhau i gyfrannu at gyflawni Cynllun y Parc.

## Llywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol - Fframwaith Perfformiad

| Mesur | 2016/17 Cyfredol | 2017/18 Targed | 2018/19 Targed | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| # Diwrnodau a gollwyd/cyfwerth amser-llawn | 7.82 | Meincnodi yn erbyn llynedd | Meincnodi yn erbyn llynedd | Mae'r staff wedi gwella iechyd a lles. Mae absenoldeb oherwydd salwch yn gostwng. Gellir rhoi ymyriadau ar waith lle bo angen. [CRPC: DE5] |
| # RIDDOR - Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus | 1 (Ambr) | 0 | 0 | Sefydlu arferion gweithio neu hyfforddiant lle y bo angen. [CRPC: DE5] |
| # Damweiniau (Anafiadau) - absenoldeb dros 3 diwrnod/hyd at 7 diwrnod | 1 (Ambr) | 0 | 0 | |
| # Mân Ddamweiniau (Anafiadau) | 24 | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | |
| # Difrod i gerbydau | 6 | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | |
| # Achosion o wrthdaro | 1 | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | |
| # Diogelu | 0 | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | Nid yw'n berthnasol (Tuedd) | |
| Presenoldeb Aelodau | 83.78 (Gwyrdd) | 75 | 75 | Mae'r Aelodau yn cymryd rhan ac mae ganddynt y sgiliau angenrheidiol i graffu ar waith yr Awdurdod a gwneud penderfyniadau. [CRPC: L1, L3, DE5] |
| % Presenoldeb Aelodau mewn hyfforddiant | 61.46 (Ambr) | 65 | 65 | |
| # Cwynion ynghylch yr Iaith Gymraeg a wnaed i'r Awdurdod | 1 | Meincnodi yn erbyn llynedd | Meincnodi yn erbyn llynedd | Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac mae modd rhoi arferion gwaith newydd yn eu lle pan fo |
| # Cwynion i Gomisiynydd y | 0 | 0 | 0 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gymraeg ynghylch methiant honedig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg | | | | angen. [CRPC: DE2, DE4] |
| % y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd â'r Gymraeg yn hanfodol | 52.3% | Meincnodi yn erbyn llynedd | Meincnodi yn erbyn llynedd | Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac mae ganddo weithlu all gyflawni gwasanaethau yn Gymraeg. [CRPC: DE2, DE4] |
| % yr ymatebion Rhyddid Gwybodaeth o fewn y terfyn amser gofynnol | 100 (Gwyrdd) | 100 | 100 | Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â Gofynion Rhyddid Gwybodaeth, Gofynion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Gofynion Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth. [CRPC: DE5] |
| % yr ymatebion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol o fewn y terfyn amser gofynnol | 100 (Gwyrdd) | 100 | 100 | |
| % yr ymatebion i Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth o fewn y terfyn amser gofynnol | Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau gwrthrych am Wybodaeth | 100 | 100 | |
| % y sylw cadarnhaol/niwtral yn y cyfryngau | 99.71 (Gwyrdd) | 80 | 80 | Mae gan randdeiliaid a chymunedau ganfyddiad cadarnhaol am yr Awdurdod. [CRPC: DE5] |
| £ Nwyddau yn y Canolfannau | 257106.09 | Meincnodi yn erbyn llynedd | Meincnodi yn erbyn llynedd | Mae'r sefydliad yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hir, gan ei alluogi i gyflawni ei amcanion llesiant a chyfrannu at gyflwyno Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a Chynllun Llesiant Sir Benfro. [CRPC: L1, DE5] |
| £ Tâl Mynediad i Caeriw ac i Gastell Henllys | 180385.45 | Meincnodi yn erbyn llynedd | Meincnodi yn erbyn llynedd | |
| £ Incwm Arall y Canolfannau | Nid yw'n berthnasol | Dangosydd Newydd | Meincnodi yn erbyn llynedd | |










| Camau Gweithredu | Cerrig Milltir | Canlyniad |
|---|---|---|
| Gweithredu argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru ar graffu, cyfathrebu mewnol ac allanol, ymgysylltu, proses arfarnu, cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg. | • Gweithdy gydag Aelodau, Cynrychiolwyr Staff, Tîm Arweinyddiaeth i weld sut mae gwella yn y meysydd hyn<br>• Gweithredu'r argymhellion o'r gweithdai hyn<br>• Mecanweithiau peilot i hyrwyddo cyfathrebu mewnol a chydweithredu | Mae gan yr Awdurdod fecanweithiau llywodraethu effeithiol ar waith ac yn gweld gwelliant yn y modd y mae'n cyflawni ar graffu, cyfathrebu, ymgysylltu, proses arfarnu, cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg. [CRPC: DE2, DE3, DE5] |
| Cynnwys adran safonol ar adroddiadau pwyllgorau | • Adran wedi'i chynnwys ar adroddiadau i'r APC | Mae'r Aelodau yn ystyried y 5 ffordd o weithio wrth wneud penderfyniadau. |

| | | |
|---|---|---|
| ar y goblygiadau o ran y 5 ffordd o weithio. | | [CRPC: L1, D5] |
| Cymryd rhan mewn cyfleoedd ymgysylltu ar dirweddau dynodedig a gynigir gan Lywodraeth Cymru. | • Mynychu Gweithgorau Llywodraeth Cymru | Mae partneriaethau a gweithio drwy gydweithredu yn sicrhau tirweddau, ecosystemau cyfoethog a chymunedau gwledig bywiog ar draws Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru. [CRPC: L1, DE5] |
| Cyflawni Siarter Aelodau Uwch | • Cwblhau adolygiad o ddatblygiad perfformiad neu hunanasesiad<br>• Cynllun hyfforddiant ar waith<br>• Cyflwyno | Mae gan yr Aelodau y sgiliau sydd eu hangen i graffu ar waith yr Awdurdod a gwneud penderfyniadau. [CRPC: L1, L3, DE5] |
| Adroddiad perfformiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg | • Adroddiad wedi'i gynhyrchu a'i gymeradwyo gan yr APC<br>• Adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Comisiynydd Iaith | Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. [CRPC: DE2, DE4] |
| Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol | • Adroddiad wedi'i gynhyrchu fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar Wireddu'r Amcanion Llesiant a'i gymeradwyo gan yr APC<br>• Yr adroddiad wedi'i gyhoeddi ar y wefan cyn Mawrth 2019 | Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb. [CRPC: DE2] |
| Staff ategol i gyflawni ar gydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data. | • Swyddog Diogelu Data yn ei le.<br>• Cofrestr data a diweddariad o'r polisïau a'r canllawiau i staff yn eu lle.<br>• Wythnos codi ymwybyddiaeth o Ddiogelu Data wedi'i chynnal.<br>• Hysbysiadau Preifatrwydd wedi'u hadolygu.<br>• Fframwaith Asesu Effaith Diogelu Data ar waith. | Mae gan yr Awdurdod fecanweithiau diogelu data cadarn ar waith. [CRPC: DE2, DE5] |
| Datblygu Strategaeth Codi Arian. | • Strategaeth Drafft Codi Arian wedi'i llunio<br>• Strategaeth Codi Arian wedi'i chymeradwyo<br>• Mae cronfa ddata cefnogwyr yn ei lle. Gwybodaeth wedi'i storio yn ddiogel yn unol â gofynion diogelu data, a dewis iaith wedi'i nodi ar y system. | Mae'r sefydliad yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hir, gan ei alluogi i gyflawni ei amcan llesiant a chyfrannu at gyflwyno Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a Chynllun Llesiant Sir Benfro [CRPC: L1, DE5] |
| Creu fframwaith Awdurdod cyfan i helpu i flaenoriaethu prosiectau ar gyfer cyfleoedd ariannu. | • Fframwaith yn ei le<br>• Prosiectau allweddol wedi'u clustnodi drwy'r fframwaith a'u blaenoriaethu ar gyfer mynd ar drywydd cyfleoedd | Mae proses o flaenoriaethu ar waith ar gyfer mynd ar drywydd cyfleoedd ariannu ar gyfer prosiectau sy'n cyflawni Polisïau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Amcanion Llesiant |

| | | |
|---|---|---|
| | ariannu | Corfforaethol. [CRPC: L1, DE5] |
| Sefydlu Ymddiriedolaeth Elusennol. | • Fframwaith llywodraethu a chyfreithiol yn ei le ar gyfer sefydlu Ymddiriedolaeth Elusennol.<br>• Ymddiriedolaeth Elusennol wedi'i sefydlu.<br>• Ymddiriedolaeth Elusennol ar waith. | Mae Ymddiriedolaeth elusennol wedi'i sefydlu i ategu gwaith Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro er mwyn gallu codi arian o ystod ehangach o ffynonellau. Mae dibenion yr ymddiriedolaeth elusennol yn cyd-fynd â dibenion yr Awdurdod. [CRPC: L1, DE5] |

| Ansoddol, Gwerthuso, Adroddiadau | Cyfleoedd Dysgu |
|---|---|
| Canmoliaeth a Chwynion | Defnyddio adborth i wneud gwelliannau i'r modd yr ydym yn darparu gwasanaethau. [CRPC: DE2, DE5] |
| Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch | Llunio'r meysydd blaenoriaeth i gymryd camau gweithredu a datblygu ymyriadau lle bo angen [CRPC: DE5]. |

## Atodiad 1
## Amcangyfrif Drafft Cryno – Gwariant Gros 2018/19 ar y 7 Nod Llesiant

| | | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd- | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 24% | 21% | 16% | 14% | 14% | 20% | 14% | **100%** |
| | | | | | | | | | **000s** |
| **Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol** |  | 79 | 231 | 16 | 16 | 20 | 0 | 40 | **399** |
| **Gwarchod y Dreftadaeth Ddiwylliannol** |  | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 119 | 7 | **131** |
| **Hamdden a Rheoli'r Parc** |  | 147 | 61 | 147 | 61 | 61 | 61 | 69 | **607** |
| **Hybu Dealltwriaeth** |  | 264 | 230 | 167 | 136 | 105 | 398 | 120 | **1420** |
| **Parcmyn, Ystadau a Gwirfoddolwyr** |  | 161 | 161 | 161 | 161 | 161 | 161 | 162 | **1128** |
| **Rheoli Datblygu** |  | 240 | 48 | 24 | 48 | 48 | 48 | 24 | **480** |
| **Blaengynllunio a Chymunedau** |  | 74 | 56 | 36 | 27 | 56 | 36 | 27 | **313** |
| **Cynryciolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd** |  | 65 | 65 | 65 | 66 | 66 | 65 | 65 | **455** |
| **Gwasanaethau cymorth** |  | 160 | 160 | 160 | 161 | 161 | 161 | 160 | **1127** |
| **Cyfanswm Gwariant Gros Gwasanaethau** | | 1190 | 1012 | 776 | 676 | 683 | 1049 | 674 | **6060** |
| Incwm o grantiau, ffioedd, taliadau, trosglwyddiadau EMR a.y.b. | | | | | | | | | -1,629 |
| Levy and NP Grant | | | | | | | | | -3,743 |
| Addasiad nad yw mewn arian parod | | | | | | | | | -673 |
| Llog Banc | | | | | | | | | -15 |
| | | | | | | | | | **-6060** |

**Gellir anfon sylwadau ar u fersiwn hon neu fersiynau eraill o'r Cynllun Corfforaethol i** gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk **gan roi Cynllun Corfforaethol fel pwnc neu gellir ysgrifennu at APCAP, Parc Llanion, Doc Penfro, SA72 6DY.**

**Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, h.y. testun hawdd ei ddarllen, testun mawr, sain, a fyddech gystal â chysylltu â gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk / 01646 624800**